

ECO'R WYDDFA

RHIF 372

RHAGFYR

PRIS 50c

TRI YM NI...



...yn flwydd oed

Pen-blwydd hapus iawn ar Ragfyr 2il i'r tri bach arbennig yma. Mae Beca, Cai ac Erin yn dathlu eu pen-blwydd cyntaf. Bu'r flwyddyn yn llawn prysurdeb a hapusrwydd i'r rhieni, Carolyn ac Alun Bewness, 39 Glanffynnon, Llanrug.

Maent yn ddiolchgar iawn i'w teulu a ffrindiau sydd wedi helpu llawer arnynt i ofalu am y tripledi bach gan drefnu a dilyn rota ar gyfer hyn. Mwynhewch y parti pen-blwydd a phob bendith arnoch fel teulu.

PWYSIG, PWYSIG, PWYSIG!

I bawb sydd am anfon newyddion, deunydd, storïau, erthyglau ac yn y blaen ar gyfer rhifyn y Nadolig 2009.

RHAID i'r holl ddeunydd fod i law erbyn **NOS SUL, 6ED O RAGFYR**. Ni fydd unrhyw ddeunydd a dderbynir wedi'r dyddiad hwn yn cael ei gynnwys!

PEIDIWCH ac anfon unrhyw ddeunydd i'r Wasg.

Os yn anfon drwy ebost, wnewch chi anfon unrhyw luniau fel ffeiliau llun (JPEG gan amlaf) ac nid fel lluniau mewn dogfen brosesydd geiriau fel Word. Felly anfon y lluniau'n unigol ac yna anfon y testun ar wahân.

Yn y rhifyn hwn:

- Hanes Cofeb Llanberis
- 'Steddfod Bethel
- Cyfarchion Nadolig Llanberis, Cwm y Glo, Brynrefail, Penisarwaun a Deiniolen

COFEB GOFFA BRYDEINIG CYPRUS

Ar ddydd y Cofio 2009 bu Fred Owen, Cyngorydd Cymuned o Lanberis, a'i wraig, Beth, mewn gwasanaeth coffa arbennig yn Kyrenia i nodi fod hanner can mlynedd ers diwedd yr argyfwng milwrol yng Nghyprus.

Dadorchuddiwyd Cofeb ar arni enwau 371 o filwyr o wledydd Prydain a laddwyd ar wasanaeth ar yr ynys rhwng 1955 a 1959.

Dechreuodd Mr Owen ei wasanaeth milwrol gyda lluoedd NATO yn yr Almaen, cyn gwasanaethu yng Nghyprus (1957-58) a chyfnod byr yn cadw'r ffin yn Tripoli.



LLIFOGYDD!



Rhai o dai Cwm y Glo wedi'r dilyw

ECO'R WYDDFA

**RHIF 372
RHAGFYR 2009**

*Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911*

*Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.*

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i
Penarth**

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com
neu Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu storiau@ecorwyddfa.co.uk

**CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS SUL RHAGFYR 6ed
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU RHAGFYR 7fed
Dyddiad Gosod
Nos SUL RHAGFYR 13eg,
Sefydliad Coffa Llanrug

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Gosod	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Nadolig	Sul 6 Rhagfyr	Sul 13 Rhagfyr	Iau 17 Rhagfyr	Ysgol Brynrefail	Eifion Roberts	870 740

Llythyrau

COFIO LLYWELYN

Annwyl Olygydd,
Yn awr mae Tachwedd 11 wedi
mynd heibio a choffau'r rheiny
a gollodd eu bywydau wrth
ymladd dros Brydain hoffwn
atgoffa pawb am ddiwrnod coffa
eto i ddod.

Ar Ragfyr 11, 1282, lladdwyd
Llywelyn ap Gruffydd, Tywysog
Cymru, ynghyd â miloedd o'i
filwyr yng nghyffiniau Cilmeri,
wrth ymyl Llanfair ym Muallt,
yn ymladd i gadw Cymru yn
rhydd o ormes Lloegr.
Claddwyd corff Llywelyn yn
Abaty Cwmhir ond aethpwyd â'i
ben i Lundain fel troffi. Credir i
gyrff ei filwyr orwedd mewn
bedd torfol o dan gws golff
Llanfair ym Muallt.

Fel sy'n digwydd bob
blwyddyn ers 60au'r ganrif
ddiwethaf coffeir y trychineb
hwn yn hanes Cymru trwy
gynnal seremoni yng Nghilmeri
ar y dydd Sadwrn agosaf i
Ragfyr 11eg, sef Ragfyr 12fed
cleni. Cynhelir hefyd ar ddydd
Sul, Rhagfyr 13eg, seremoni
coffau yn Llys Rhosyr, olion un
o lysoedd Llywelyn, ar gyrion
Niwbwrch ar Ynys Môn

Dylai pawb sy'n dymuno
cymryd rhan ymgynnull wrth
ymyl Institiwt Niwbwrch am
1.30 o'r gloch. Cyn hynny yn y
bore caiff torchau eu gosod ar
gofgolofn Llywelyn y tu allan i
swyddfeydd Cyngor Gwynedd
yng Nghaernarfon am 11.00 o'r
gloch.

Gobeithir gweld yn y
seremonïau hyn pawb sy'n
meddwl ei bod yn bwysig
coffau'r Cymry a gollodd eu
bywydau wrth ymladd dros
ryddid i Gymru.

Yr eiddoch yn wlatgar
CHRIS SCHOEN
Penygroes, Gwynedd

**Mae angen mwy o
help i osod a golygu'r
Eco. Allwch chi
helpu plis?**



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys
a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch
â Gomer Roberts
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er
mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

DIWRNOD HAWLIAU GOFALWYR

Annwyl Olygydd,
Hoffwn hysbysu eich
darllenwyr ein bod yn cynnal
Diwrnod Hawliau Gofalwyr yn
Neuadd Goffa,
Penrhyndeudraeth, dydd
Gwener, 4ydd o Ragfyr rhwng
11.00-3.00. Thema'r Diwrnod
eleni yw Cymryd Gofal o'ch
Incwm a'ch Pensiwn. Pan mae
Gofalwyr yn rhoi'r gorau i'w
gwaith i ofalu, yn aml nid ydynt
yn ystyried eu pensiwn, ond yn
hytrach yn poeni am eu
cyfrifoldebau gofalu a chael dau
ben llinyn ynghyd. Os nad
ydynt yn derbyn yr wybodaeth
gywir yna fe allent fod yn colli
allan ar gyfraniadau hanfodol
i'w Pensiwn Gwladol.

Bydd gennym stondinau
gwybodaeth yn ogystal â chyfle i
gael paned a sgwrs. Bydd cyfle
hefyd i fwynhau adloniant
ysgafn gan blant a phobol ifanc
lleol. Dewch yn llw. Mae croeso
cynnes i bawb.

Llawer o ddiolch,
BETHAN MORRIS
Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr /
Carers Outreach Service
Uned 6, Mentec
Ffordd Deiniol
Bangor
Gwynedd
LL57 2UP
Ffôn/Tel: 01248 370797
Ffacs/Fax: 01248 371302
www.carersoutreach.co.uk

Gwasanaethau Garddio Gorwel

**01286 650761
07773 020424**

*Planu Llwyni
Planhigion a Llysiau
Tori Gwair a Gwrychoedd
Tocio Palu a Chwynu
Tacluso a Gofal Tymhorol
Gwella Safon Tir
Glanhau Llwybrau, Tywarchu
CWBL YSWIRIEDIG*

RHODDION

£10: Mrs Nan Wilson Evans,
Manod, Ffordd Capel Coch,
Llanberis; Mrs Dilys Baylis;
Eirlys Jones, Gwynant,
Penisarwaun.

£5: Gwion Wyn ac Ywain
Emrys, Bethel; Mr Gordon
Owen, 46 Maes Padarn,
Llanberis; Mrs Enid Jones,
Delfryn, Ffordd Capel Coch,
Llanberis; Mr Kyffin Hughes,
Vaynol Cottages, Llanberis;
Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys
y Gwynt, Penisarwaun.

£3: Sue Jones, 83 Pentre Helen,
Deiniolen



BETI A'I PHOBOL

Gwestai Beti a'i Phobol yr
wythnos diwethaf oedd **Elliw
Llwyd Owen**, 33 oed, o
Bontnewydd ger Caernarfon.
Mae Elliw wedi bod yn aros
am drawsblaniad aren a
pancreas ers tair blynedd
bellach ac er iddi gael dwy
alwad addawol flwyddyn yn
ôl, mae'n dal i ddisgwyl am y
driniaeth a fydd yn gwella
safon ei bywyd yn enfawr. Yn
y cyfamser mae'n rhaid iddi
fynd am driniaeth dialysis i
Ysbyty Gwynedd, Bangor,
dair gwaith yr wythnos ac
mae hefyd yn brysur yn ceisio
codi ymwybyddiaeth am
bwysigrwydd cario cerdyn
donor bob dydd. Meddai
Elliw, 'Wedi ei farw, mae'n
bosib i un person achub neu
wella safon bywyd hyd at
ddeunaw person arall, a dwi'n
credu ei bod yn ddyletswydd
ar bawb un ai i gario'r cerdyn
donor yma neu, os nad ydach
chi'n dymuno bod yn ddonor,
i gario cerdyn sy'n dweud
hynny.'

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG - WELSH
LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



COFEB LLANBERIS

Ers peth amser mae'r Gofeb o flaen y Ganolfan Gymdeithasol wedi dal fy sylw. Pryd y codwyd hi? Pwy fu'n gyfrifol am wneud hynny? Pam y symudwyd hi o'i safle wreiddiol? Wrth geisio dod o hyd i'r atebion, cysylltais â nifer o'r pentrefwyr, ac rwy'n ddiolchgar am eu cymorth.

Yn dilyn y brwydro mwyaf erchyll a welodd y byd erioed yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, a bron pob pentref yng ngwledydd Prydain wedi dioddef colledion, roedd teimlad cyffredinol y dylid cael cofebau lleol i gofnodi aberth y rhai a gollodd eu bywydau. Rheswm arall dros gael cofebau oedd datganiad y llywodraeth, yn fuan wedi cychwyn y rhyfel, nad oedd cyrff y rhai a laddwyd i'w dychwelyd yn ôl i'w cynefin. Golygai hyn nad oedd modd i'w teuluoedd gynnal y gwasanaeth angladdol arferol, a theimlid y buasai cofeb, gydag enwau'r anwyliaid a gollwyd arni, yn fodd o alluogi'r teuluoedd i alaru.

Tua dechrau 1920 ffurfiwyd pwyllgor yn Llanberis yn cynnwys arweinyddion yr holl enwadau crefyddol o fewn y plwyf, ynghyd â chynrychiolwyr mudiadau eraill, i benderfynu ar leoliad a ffurf y gofeb; i drefnu i godi arian i dalu amdani, ac yn ddiweddarach, i drefnu gwasanaeth dadorchuddio'r gofeb.

Penderfynwyd lleoli'r gofeb

ar lain o dir ble roedd Ffordd yr Eglwys yn ymuno â'r Stryd Fawr. Prynwyd y mymryn tir am £10 gan Stâd y Faenol a phenodwyd y pensaer H. L. North i gynllunio ffurf y gofeb. Derbyniwyd cynllun o gofeb wedi ei gwneud o garreg a llechfaen, gyda thri wyneb iddi.

Codwyd y rhan fwyaf o'r arian drwy danysgrifiadau gan drigolion Llanberis a Nant Peris, a chyhoeddwyd rhestr o'r holl gyfranwyr a mantolen ariannol i ddangos y derbyniadau a'r taliadau. Mr Richard Williams o Lanfairfechan a ymgymerodd â'r gwaith o godi'r gofeb newydd, ac yr oedd cyfanswm y gost - tâl y pensaer a phryniant y tir - ychydig dros £440.

Cynhaliwyd y gwasanaeth dadorchuddio am hanner awr wedi dau ar ddydd Sadwrn, laf o Hydref, 1921, gydag arweinyddion yr holl enwadau crefyddol yn cymryd rhan, ynghyd â Chôr y Cyn-filwyr. Dadorchuddiwyd y Gofeb gan Mrs Goff Owen, Bryn Du, a darllenwyd enwau a chyfeiriadau pob un o'r 63 o fechgyn lleol a gollodd eu bywydau. R. W. Williams, ysgrifennydd y pwyllgor gwaith, fu'n gyfrifol am yr orchwyl hon.

Safodd y Gofeb yn ei safle wreiddiol am dros hanner can mlynedd, ond ar ddechrau'r 1970'au, penderfynodd y Cyngor Plwyf, am nifer o resymau,



Y gofeb yn ei safle gwreiddiol

symud y Gofeb i'w safle presennol. Cytunodd Cwmni CEBG i ymgymryd â'r gwaith, gan gyflwyno lori, peiriant codi a gweithwyr tuag at y gwaith.

Mae dau ymholiad ynglŷn â'r gofeb yn parhau heb eu hateb:

A fu gwasanaeth yn dilyn cofnodi'r rhai a fu farw yn ystod yr Ail Ryfel Byd?

Mae enwau y rhai a gollwyd

yn y Rhyfel Mawr wedi eu rhestru yn nhrefn yr wyddor, ond nid felly yr enwau ar y trydydd wyneb. A yw'r rhain wedi eu rhestru yn ôl 'rank' yn hytrach na threfn yr wyddor?

Cais yw hyn i gofnodi hanes codi'r Gofeb, ac nid ymdrech i olrhain cefndir y bechgyn dewr sydd wedi eu rhestru arni.

EIFION ROBERTS

"Canys gwell i ni feirw yn y rhyfel
Na gweled drygydd ein cenedl a'n cysegr."

LLANBERIS.

Dadorchuddio Cofeb

V RHAI A SVRTHIASANT

Yn y Rhyfel Mawr, 1914 - 1918,

Dydd Sadwrn, Hydref 1, 1921

AM HANER AWR WEDI DAU
YN Y PRYDNAWN.

Y Ddwyloer Gwreiddiol.

Y PRYD. A. J. GEORGE, B.A., B.D.
.. LEWIS JENKINS, B.A.
.. THOMAS LLOYD.
.. J. EVANS OWEN.
.. J. FRITCHARD, M.A., B.D.
.. D. P. THOMAS, B.A.

MR. W. ABEL DAVIES.
.. EDWIN W. EVANS.
.. H. ARIANDER HUGHES.
.. R. E. JONES.
.. HUGH FRITCHARD.
.. R. W. ROBERTS.

MR. OWEN WILLIAMS.



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad neu

ysgrifennwch atynt:
Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell,
Caernarfon, LL55 1SE
neu ebost: williamsgw@parliament.uk

CHWILOTA

COFIO



Mae'r wybodaeth am y Gymanfa Ganu yn Ffrainc ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf wedi esgor ar gryn ddiddordeb gan nifer o'r darllenwyr, a cheisiaf roi crynodeb o'r holl wybodaeth a ddaeth i law dros yr wythnosau diwethaf. Gyda diolch arbennig i Huw Roberts, Pwllheli (Llanberis gynt), Hywyn Williams, Prestatyn (Deiniolen gynt) a Brenda Jones, Trefor.

Mae Hywyn Williams wedi bod wrthi ers sawl blwyddyn yn ceisio darganfod beth ddigwyddodd i'r bechgyn a restrwyd ar y gofeb yn Neiniolen, ond bellach mae wedi lledu ei ymchwiliadau i holl fechgyn Arfon (yr ardal o Lanfairfechan i Lanllyfni) a gollwyd yn ystod y rhyfel. Mae ei waith ymchwil yn drwyadl, ac rwy'n hynod ddiolchgar iddo am y wybodaeth ynglŷn â'r cwmnïau chwarel (y 'Quarrying Companies' fel y gelwid hwy amser y Rhyfel Byd Cyntaf). Roedd y rhain yn rhan o'r Inland Waterways and Railways (WR) o'r Royal Engineers. Fe'i ffurfiwyd yn 1916, ac erbyn 1918 roedd 13 o'r Cwmnïau Chwarel hyn yn gwasanaethu yn Ffrainc. Roedd mwyafrif y dynion a wasanaethai ynddynt yn chwarelwyr o ogledd Cymru, gan gynnwys chwareli llechi a cherig. Dyna pam fod rhai o fechgyn Llanberis a Threfor yn gwasanaethu yn yr un cwmni.

Ceir adroddiad am y Gymanfa yn yr *Herald Cymraeg*, rhifyn cyntaf 1919. Yn yr adroddiad dywedir fod dau o Lanberis yn cymryd rhan, sef Brwynog Jones a Dafydd Roberts (Dafydd 'Rhelfa' - sef tad Huw Roberts o Bwllheli, a gysylltodd yn gynharach i roi'r wybodaeth hon i mi). Gan mai

gohebydd o Lanberis sydd wedi anfon yr adroddiad, mae'n annhebygol fod un arall o fechgyn y pentref heb ei enwi ganddo.

Pan ymddangosodd hanes y Gymanfa yn yr 'Eco', roedd Brenda Jones o Drefor ar gychwyn i Ffrainc i ymweld â Rinxent, ble cynhaliwyd yr achlysur. Roedd ei thaid hithau - Mathias Williams o Drefor yn gwasanaethu yn yr un Cwmni Chwarel. Derbyniais adroddiad am yr ymweliad wedi iddi ddychwelyd. Dyffryn Dedwydd yw'r cyfieithiad o La Vallee Heureuse, sef yr enw lleol am yr ardal. Mae Neuadd Henaux yn dal i sefyll, yn agos i'r fynedfa i Chwarel Rinxent, oedd yn eiddo i deulu Henaux ers diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn anffodus, does dim archif o gwbl o'r dyddiau cynnar; fe'i dinistriwyd ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. Yno, cyfarfu Brenda â Max Henaux, gor-ŵyr Henri Henaux, oedd yn berchennog y chwarel a'r neuadd yn 1918. Dangoswyd iddi nifer o luniau o'r hen neuadd, ond yn anffodus, doedd dim un yn dyddio o gyfnod y Gymanfa.

Mae'n debygol mai Mathias Williams oedd yr unawdwr yn y Gymanfa. Fe'i hadnabyddid fel Thei Canwr, ac er na ellir cadarnhau'n bendant ar hyn o bryd, mae'n bosibl mai ef yw'r M. Williams yn y 326 Quarrying Company. Un arall o Drefor oedd Hugh Bott. Daeth gartref o'r Rhyfel Mawr, ond fe'i lladdwyd yn Chwarel Trefor ym mis Rhagfyr 1923 yn 31 oed.

Trist hefyd yw cofnodi i fab Brwynog Jones, sef John Haydn Jones, gael ei ladd yn yr Ail

Ryfel Byd. Mae ei enw wedi ei gofnodi ar y gofgolofn yn Llanberis, sef yr un a godwyd drwy danysgrifiadau'r pentrefwyr yn dilyn y Rhyfel Mawr.

Aeth Eifion Roberts, Llanberis, ati i chwilio hanes y casglu, yr adeiladu a'r symud o'r safle gwreiddiol i'r safle presennol. Gweler ei erthygl ar dudalen arall o'r rhifyn hwn. Gyda diolch i chwi i gyd am eich ymateb a'ch gwaith ymchwil.

Arlunydd o Lerpwl

Os oedd yr ymateb i hanes y Gymanfa yn Ffrainc yn gadarnhaol, gwahanol iawn oedd hi ynglŷn â'r arlunydd fu'n byw yn Llanberis. Doedd neb wedi clywed am yr arlunydd o Lerpwl. Er hynny, cefais gyfle i chwilio ychydig am hanes teulu ei wraig, a ddeuai o Gaernarfon.

Bellach, mae'n ymddangos fod gan Jane Bond (Ellis yn wreiddiol) gysylltiadau â'r Alban. Chwi gofiwch ei bod yn aros yn Swydd Efrog yn 1851 gyda theulu o'r Alban, ac yn cynnal ei hun yn ariannol. Priododd â William Joseph Bond ym Mangor yn 1860, ac yr oedd y ddau yn byw yn Bryn Derw, Llanberis, erbyn 1861. Ond prin fu eu arhosiad yno. Erbyn 1862, roedd y teulu wedi symud i Gaernarfon, a phlentyn o'r enw Margaret Susannah yn cael ei bedyddio yn Eglwys Llanbeblig ym mis Mai y flwyddyn honno. Roedd y teulu erbyn hyn yn byw yn Glan Helen.

A dyna eglurhad felly ar yr ysgrifen ar un o ddarluniau William Joseph Bond - Morning in Spring. Nid llun o'r afon Saint ger Glan Helen sydd ganddo, ond arwyddo'r llun a wnaeth gydag enw ei gartref ar y pryd. Ac y mae'r dyddiad yn cadarnhau ei fod yn byw yn Glan Helen yn 1863. Ganed dau o blant craill iddynt, sef William ac Elizabeth, ond

methais â chael cofnod bedydd i'r ddau hyn yng Nghaernarfon.

Erbyn 1871 roedd y teulu wedi symud i Lerpwl, ac yn byw yn 43 West Derby. Yno hefyd mae Owen Ellis, tad Jane. Prin fu eu arhosiad yn Lerpwl hefyd, oherwydd erbyn 1881 maent yn ôl yn Llanberis, y tro hwn yn byw ym Mryn Du. Ond mae'n ymddangos fod tor-priodas wedi digwydd. Ni ddaeth William Joseph yn ôl i Lanberis. Yn 1881 mae'n byw yn 65 West Derby, Lerpwl gyda'i chwaer, Marion Bond. Yn Llanberis, mae Jane yn disgrifio'i hun fel 'merch briod' ac yn 'wraig arlunydd'. Gyda hi yn Llanberis roedd Mary Susannah ac Elisabeth Isabel Douglas. Ond ble roedd Owen Ellis erbyn hyn? Methais â'i ddarganfod ar gyfrifiad 1881, a'r rheswm am hynny oedd iddo farw ym Mryn Du ym mis Chwefror 1881 yn 89 mlwydd oed. Fe'i claddwyd ym mynwent Llanbeblig gyda'i wraig, Margaret Douglas.

Symud fu hanes Jane unwaith eto, ac erbyn 1891 roedd yn byw yn 3 Tai Rhiwbanc, Llandrillo yn Rhos. Roedd hi erbyn hyn yn 60 oed, a'i dwy ferch ddibriod, Mary Susannah ac Elisabeth Isabel yn parhau gyda hi. Ond nid hwn oedd ei chartref olaf, oherwydd pan fu farw ym mis Mawrth 1895 roedd wedi symud unwaith eto, y tro hwn i Morllon Terrace, Dwygyfylchi. Oddi yno yr hebryngwyd hi i fynwent Llanbeblig, a'i chladdu yn yr un bedd a'i rhieni. Does dim adroddiad am ei marwolaeth na'i chynhebrwng ar wahân i baragraff byr yn y Caernarfon and Denbigh Herald yn nodi fod Mrs Bond 'of Penmaenmawr, wife of Mr Bond, artist' wedi marw, a'i bod ar un cyfnod yn 'frequent contributor to the columns of the local English press.'

Mae dwy arall wedi eu claddu

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

**Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ**

Ffôn: (01286) 650834

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor **7.30 - 6.30**

8.00 - 6.00 (Sadwrn)

9.00 - 12.00 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

yn y bedd teuluol yn Llanbeblig hefyd: Elizabeth Taylor Douglas Campbell Lockart o Stranraer, Yr Alban, a gladdwyd ym mis Mehefin 1885 yn 84 oed. O bosibl mai chwaer i fam Jane oedd hon. Cyn ei marwolaeth, roedd yn byw yn Bryn Teg Terrace, Bangor Uchaf. Yr olaf i'w chladdu yn y bedd teuluol oedd Elisabeth Isabel Sharp, sef merch ieuengaf Jane. Bu hi farw ym mis Mawrth 1958 yn 90 oed. Does dim gwybodaeth ynglŷn â phwy oedd ei phriod na ble bu farw.

A beth am y ddau blentyn arall? Beth ddigwyddodd i Owen Ellis Bond ac i Margaret Susannah Bond? A oeddent hwy mewn cysylltiad â'u tad tra bu'n byw yn Lerpwl hyd ei farwolaeth yn 1926? Bydd angen cryn dipyn mwy o chwilota i ddarganfod pam y daeth Jane a'i thad a'r plant yn ôl i Lanberis rywdro rhwng 1871 ac 1881 ar ôl byw yno am gwa ddwy flynedd yn dilyn ei phriodas yn 1860.

Pobl ar Goll

Nid yn llythrennol felly! Ond yn ystod y mis cefais ddau gais am bobl a fu'n byw yn y fro yn ystod y ganrif ddiwethaf, ac angen mwy o wybodaeth amdanynt.

Mae cyfaill o Lerpwl (ond nid arlunydd) yn chwilio am wybodaeth ynglŷn â gwr o Gwm y Glo, sef Emlyn Rowlands. Prin iawn yw'r wybodaeth sydd amdano, ac er i mi holi nifer o drigolion presennol Cwm y Glo, dydw i fawr nes i'r lan. Mae'n ymddangos fod Emlyn Rowlands yn byw yn y Cwm tua cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf, ond iddo ef a'i frawd (does gen i ddim enw iddo) symud i Lerpwl ddiweddd y rhyfel neu'n fuan wedyn. Er hynny, roedd yn dal yn berchennog ar ei gartref yn y Cwm, ac yn talu trethi ar y tŷ hyd ganol y 1960'au. O'r disgrifiad a gefais, mae'n

ymddangos ei fod yn byw yn nhai Craig y Don, neu o leiaf yn y rhan hon o'r pentref. Byddwn yn falch o unrhyw wybodaeth.

Daw'r ail berson o Lanberis. Mae'n ymddangos fod meddyg Llanberis (cyn cyfnod Dr Douglas) yn byw ym Mryn Gwyddfa. Yno, rywbryd, aeth rhan o'r tŷ ar dân, ac er ymdrechion gan wr lleol, llosgwyd neu mygwyd un o enethod y meddyg. Achubwyd y chwaer arall. Cefais ar ddeall mai Dr Fox oedd enw'r meddyg, ond hyd yn hyn, methais â chael dyddiad y digwyddiad. Mae angen gwybod pwy oedd y person a fu'n gyfrifol am achub y chwaer. Roedd Dr Douglas yn Lanberis erbyn 1930, felly gall y digwyddiad fod yn gynharach. Ond mae posibilrwydd i'r Dr Fox hwn dreulio cyfnod yn gweithio gyda Dr Douglas. Felly, gall y tân fod wedi digwydd ar ôl 1930. Unwaith eto, byddwn yn falch o unrhyw wybodaeth.

Ymweliad â Llanberis 1912

Daeth ymateb hefyd ynglŷn â'r ymweliad â Llanberis gan y myfyrwyr o Crewe - a thrafodaeth ynglŷn â'r planhigion a gasglwyd yn yr ardal ganddynt. Yn anffodus, bydd yn rhaid cyhoeddi'r wybodaeth hon yn y rhifyn nesaf - o fewn pythefnos. Yn y rhifyn hwnnw hefyd bydd pythiau amrywiol am wahanol bentrefi'r fro, a thoreth o wybodaeth am siopau Cwm y Glo yn ystod y ganrif ddiwethaf. Dyna ddigon o ddanteithion i'ch cadw dros dymor y gwyliau.

Ond cofiwch, os oes gennych unrhyw ymholiad neu wybodaeth am unrhyw agwedd o hanes bro'r 'Eco', yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: 01286 673515.

O SLAMBAR SELWYN

Yndw, mi rydw i dros fy mhedwar ugain oed, a fedra i ddim brolio fy mod i'n teimlo'n heini chwaith y dyddiau hyn. Ond, coeliwch neu beidio, mi ges ilythyr caru ychydig yn ôl ac mi deimlais yn eitha sigledig ar ôl ei ddarllen. Dyma'r ail lythyr i mi ei dderbyn gan Beti Bur. Mi ges i gais ganddi am iddi gael ei derbyn i'r Orsedd rai misoedd yn ôl. Yn wir, mae hi'n fy nychryn braidd ac mae gen i ofn clywed ei chnoc ar y drws 'cw. Dyma'r llythyr:

* * *

Ty Calon Lân
Stryd Anobaith
Crychlyd
Ynys Môn

Dydd Llun ar ôl y Steddfod Annwyl, Anwylaf
Archdderwydd,
Haia del, fi sy 'ma eto. Rŵan ta, 'top man' rwt ti'n dwbwl top rŵan. Ew, dwi mor proud ohonot yn mynd eto ar y Maes Llwm yn yr Orsaf 'na, ac yn rhoi gwd acownt o chdi dy hun fel arfar. Wel done, Wa.

Fel ti'n gwobd bellach dwi up ffrynt, achos dwi'n coryspondio efo chdi yn amal, a na i ddim gif yp. Dwi'n benderfynol o ennill dy galon di. Mae'r ffaith dy fod ti yn lidar of the pack eto wedi fy ecseitio i yn fwy byth.

Ers tro blaen dwi wedi bod yn brysur yn adio at fy ngwalifficesions ac yn gwella fy Welsh er mwyn i chdi licio fi mwy. Dwi wedi enrolio yn Coleg Mena hefyd i ddysgu sut i droi hen grwyn llysia yn ffertileisers a hefyd sut i gal madal â 'unwanted hair'.

Wyddost ti fod yr hen Eirlys Eiddigeddus 'na yn jelys mod i yn sgwennu i ti. Dyma hi yn deud wrtha i ddoe fel hyn

'Yli,' meddai, 'fe fasa'n well gin yr Archdderwydd nofio yn noeth lymun groen mewn môr yn llawn o siarcod a brest o lam

yn sownd ar i sgwydda na rwdlan hefo chdi.' Hen jadan ydi hi.

Esu ma ishio gras. Mi steddais i ar fainc yn cae Steddfod i gal cip arnat a dyma na griw o ferchad ifanc coesau hir, mewn pelmets yn sefyll o mlaen i. Sôn am goman, rodd gynnun nhw datws rownd i bogla, ac yn tynnu ar bob dyn oedd yn pasio. Gobeithio na welis di monyn nhw. Roeddant yn llygru'r lle a 'lowering ddy standards'. Ac mi roeddant nhw yn dena. Mi fasa'r holl blwming lot wedi medru campio yn fy mhais i. Sôn am anghynas, cadwa di draw oddi wrthyn nhw top man.

Bai ddy we, dwi ishio prynu y gadar neis na nath neb i hennill hi. Ewcs bechod 'te. Mi faswn i yn medru gneud iws ohoni yn y siambar 'cw. Mae'n hawdd cal losg eira wrth fynd i ben draw 'rar 'cw yn ganol gaea.

Wyddost ti be, mae gen i deimlad fod ein lyf offer ni wedi codi i lefal newydd. Tyd draw acw hefo'r gadar a dy gorn gwlad ac mi wranta i na nei di byth adal y tŷ 'cw.

Lyfio chdi am byth

Beti Bur

XXXXXXXXXXXXXX

P.S. Yn Steddfod Clun Ebol flwyddyn nesa, fedri di anownshio ein engejment ni o'r Maen Llwrgr 'run fath a nath Bonnire Fisher 'na, honno oedd yn i miwsical 'Sŵn canu o'r mynyddoedd'. XX

* * *

Mae'n well i mi rybuddio y 'top man' nesa am Beti Bur, a siawns na cha i lonydd rŵan, ond gwell i mi beidio â mentro dros Bont Menai am sbel. Mi ges i gip arni hi yn Steddfod Heneiddio'n Dda Ynys Môn yn ddiweddar, ond diolch i'r drefn fe lwyddais i ddianc cyn iddi lapio ei hun amdana i. Welodd Myra mohoni, wrth lwc!

Cofiwch gefnogi ein hysbysebwyd



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn
Ffôn: (01286) 650218

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CYMDEITHAS LENYDDOL. Oherwydd mai Llywydd y Gymdeithas oedd yn annerch y mis yma cafwyd gair o groeso gan Ieuan Williams a hysbyswyd yr aelodau am rodd oedd wedi dod i law gan Gyngor Llanddeiniolen.

Croesawyd Dr. J. Elwyn Hughes atom a chafwyd ganddo sgwrs gyda darluniau pwrpasol yn olrhain hanes y tu ôl i nofel fawr Caradog Prichard, *Un Nos Olau Leuad*. Cafwyd hanesion di-ri am nifer o gymeriadau o Ddyffryn Ogwen sydd yn y nofel, ynghyd â digwyddiadau y fro honno. Cyfoethogwyd y cyfan gyda darluniau o bobl roedd Caradog Prichard yn eu hadnabod, ac hefyd golygfeydd ac adeiladau o amgylch Bethesda.

Diolchwyd yn gynnes iawn iddo am noson arbennig gan Robin Jones. Y tro nesaf bydd yr aelodau yn cynnal noson 'Dathlu'r Nadolig' a hynny ar nos Fawrth Rhagfyr 8fed. yn Ffestri'r Cysegr.

CLWB BRO BETHEL. Daeth nifer dda o aelodau i'r cyfarfod y mis yma gan dderbyn croeso gan y Prifardd Selwyn Griffith. Braf oedd cael datgan unwaith eto fod rhodd arall wedi ei chyflwyno i'r Clwb, a hynny y tro yma gan Mr a Mrs Kalsi, Y Bedol. Cyhoeddwyd mai y cinio Nadolig fydd nesaf yn y Bedol a hynny ar Rhagfyr 1af.

Y siaradwraig wadd oedd Gwenan Mai Williams, swyddog iechyd amgylchedd yng Nghyngor Gwynedd. Ei gwaith pennaf ydi archwilio hylendid a diogelwch bwyd o eiddo busnesau bwyd y sir, a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn, gyda chymorth lluniau, ar bwysigrwydd o baratoi a gweini bwyd yn ofalus. Mae bron i 2000 eiddo ac adeiladau bwyd yn cydymffurfio â gofynion angenrheidiol. Paratowyd y baned gan Myra Griffith a Gwyneth Williams.

MERCHED Y WAWR.

Croesawyd pawb i gyfarfod Tachwedd gan y Llywydd Mair Read a llongyfarchwyd ieuencid y pentref ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod yn ddiweddar, gan gyfeirio at lwyddiant Gethin Griffiths ŵyr i Rita ar ennill Cadair yr Eisteddfod. Anfonwyd cofion at Lynnwen Morris sydd wedi bod yn yr Ysbyty yn derbyn llawdriniaeth gan obeithio ei gweld gyda ni eto yn fuan iawn.

Darllenwyd llythyr parthed Neuadd y Pentref yn gofyn am gynrychiolaeth o'r Gangen i fynychu'r Cyfarfod Blyneddol, awgrymwyd fod y Llywydd a'r Ysgrifennydd yn cynrychioli'r Gangen am eleni. Dymunwyd yn dda i'r ddau dîm fydd yn cymryd rhan yn y Cwis Cenedlaethol.

Noson o waith crefft oedd ar y rhaglen y mis yma, ac o dan gyfarwyddyd y wraig wadd sef Pat Jones, Brynrefail, bu i pawb weithio yn ddiwyd iawn yn creu bocs bach a cherdyn, y ddau ar gyfer y Nadolig. Roedd hi wedi dod â nifer fawr o amrywiol enghreifftiau i arddangos ac roedd ei harbenigedd yn y maes yn amlwg iawn. Aeth pawb adref yn falch iawn o'u gwaith.

Diolchwyd i Pat am noson bleserus a chreadigol gan Margaret Druce, a bu i ddwy ennill gwobr raffl, sef Eirlys Williams a Liz Watkins.

Yn Nhafarn yr Afr y bydd y Cinio Nadolig a bydd y bws yn cychwyn o'r Cysegr am 6.30 gan alw ar y ffordd i lawr trwy'r pentref.

DIOLCH. Hoffai Lynnwen Morris, Perthi, ddiolch o galon i berthnasau a ffrindiau am y llu cardiau a'r galwadau ffôn yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU. Fe gasglodd Gwion Wyn ac Ywain Emrys £55 at Glwb B.M. wrth gymryd rhan mewn taith gerdded nodedig o Inigo Jones ar hyd Lôn Eifion. Clwb gwirfoddol sydd yn cynnig cyfle

i blant gyda 'diabetes' ddod at ei gilydd a rhannu eu profiadau yw Clwb B.M.

Dymuna Gwion ac Ywain ddiolch yn fawr iawn i bawb wnaeth eu noddi.

CADAI'R EISTEDDFODOL. Cipiodd Richard Llwyd Jones y

Gadair a'r Tlws Llên yn Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn, Yr Wyddgrug yn ddiweddar. Dyma'r tro gyntaf i'r 'dwbwl' gael ei gyflawni yn yr eisteddfod ers degawdau. Anrheg bach hwyr wedi cyrraedd oed y 'bus pass'.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

YR EGLWYS

BRESBYTERAIDD

LLONGYFARCHIADAU.

Hyfrydwch yn yr oedfa nos Sul, Tachwedd 8fed, oedd cael llongyfarch Bertie Lloyd Roberts, Llwyncoed Bach, ar ddathlu deugain mlynedd fel blaenor yn yr Eglwys. Fe'i anrhydeddwyd yng

Nghymdeithasfa'r Gogledd o Eglwys Bresbyteraidd Cymru a gyfarfu yng Nghapel y Porth, Porthmadog, ar Dachwedd 4ydd.

Cyflwynwyd iddo Dystysgrif hardd i nodi'r achlysur. Gwerthfawrogwn yn fawr fel aelodau ei wasanaeth dros y blyneddau ac rydym yn falch o'i gwmni o hyd yn yr oedfaon er nad yw wedi bod yn dda ei iechyd yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

GWERTHIAN Y CAPEL A'R FESTRI. Erbyn hyn mae'n hysbys fod gwerthiant yr adeiladau wedi ei gwblhau yn derfynol.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf symudodd y prynwr a'i weithlu i mewn i ddatblygu'r safle. Bydd muriau gwreiddiol y ddau adeilad yn dal i sefyll ac yn cael eu defnyddio i greu pedwar o gartrefi.

Fel llawer ardal arall, yn wyneb y baich o gynnal adeiladau enfawr, mae'r defnydd hwn o'r hen adeiladau i'w groesawu a chynulleidfia yr eglwys yn ffodus o gael parhau i ymgynnull ac addoli ar aelwyd fodern ddymunol a diddos y Caban.

Y GYMDEITHAS. I gloi tymor y Gymdeithas am 2009, trefnwyd cyfarfod gwahanol i'r arfer. Brynhawn Iau, Hydref 29ain talwyd ymweliad â Chanolfan Treftadaeth Cae'r Gors yn Rhosgadfan.

Croesawyd yr aelodau gan Bethan Jones Parry, Rheolwraig y Ganolfan, a rhoddwyd cefndir cryno o sut y datblygwyd hen gartref Kate Roberts, brenhines ei llên, fel canolfan dreftadaeth gyda sylwadau ar y gwaith presennol sy'n mynd ymlaen a golwg ar y dyfodol o safbwynt cynladwyaeth. Dangoswyd ffilm ar fywyd yr awdures a chafwyd cyfle i werthfawrogi creiriau a dogfennau yn yr amgueddfa. Uchafbwynt yr ymweliad oedd cael troedio o un ystafell i'r llall ym mwthyn Cae'r Gors - adeilad sydd wedi ei adfer i gyfnod cynnar yr awdures a'i ddodrefnu yn bwrpasol gyda chelfi hynafol.

Mwynhawyd lluniaeth ysgafn ar y terfyn.

Mae ein diolch yn gynnes iawn i Dafydd G. Ellis am drefnu prynhawn mor bleserus i'r aelodau.

OEDFAON RHAGFYR

6: am 5.30: Parch Iorwerth Jones Owen, Caernarfon

13: am 5.30: Parch Harri Parri, Caernarfon

20: am 2.00: Gwasanaeth Nadolig gyda lluniaeth ar y terfyn yng Nghaffi

Caban

27: am 2.00: Mr Oswyn Evans, Penmaenmawr

DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

MAINC WRTH Y GANOLFAN. Gofynnwyd imi, drwy gyfrwng yr *Eco*, gan berson sydd yn dymuno bod yn ddi-cnw, ofyn y cwstïwn tybed a oes rhwydwn yn gwybod i ble y mae'r fainc oedd dros y ffordd i'r Ganolfan wedi mynd. Mae'n anodd deall sut y mae wedi cael ei symud oddi yno gan ei bod mewn sment. Yr oedd amryw yn licio cael eistedd ar y fainc, yn enwedig os oeddynt wedi cerdded i fyny o'r Fachwen ac yr oedd mewn man canolog yn yr ardal. Tybed a all unrhyw un roi goleuni ar y mater?

CLWB ORWIG. Bu Clwb Orwig, yn ystod y mis, am bnawn i Glynllifon, pan oedd yn ddiwrnod agored yno. Bu iddynt fwynhau cu hunain yn fawr iawn a chyn gadael fe gawsant baned o de.

CYSGODFAN TYN Y FAWNOG. Rwyf wedi cael ar ddeall gan y Cyngorydd Lcn Jones mai Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am gadw y gysgodfan uchod yn lân. Wel, mae angen mawr ar iddynt ei glanhau! Pam, tybed nad oes amserlen bysiau byth yn cael ei rhoi i fyny yno, er bod yno le i roi un!

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan,
CLED A SUSAN A'R TEULU

Cofiwch am ein gwasanaeth

newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant Tynnu Pres (Cashback)

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn a Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

ORIAU AGOR

6 a.m. - 7.30 p.m.

(Llun-Sadwrn)

6 a.m. - 3 p.m. (Sul)

10 a.m. - 12pm

(Diwrnod Nadolig)



EISTEDDFOD DDAWNSIO DISGO BETHEL

Cynhaliwyd noson o ddawnsio disgo arbennig o lwyddiannus yn y Neuadd Goffa ym Methel. Y beirniad oedd Miss Gwawr Hughes o Amlwch, ac arweiniwyd y noson yn hwylus gan Angharad Price ac Enfys Roberts, y trefnydd oedd Mrs Siân Harris. Talwyd diolchiadau gan Lywydd y pwyllgor, Mrs Deilwen Hughes.

Canlyniadau

Unigol blwyddyn 3 ac iau: Elin Jones; *Blwyddyn 4, 5 a 6:* Elan Jones; 7-13: Fflur Huws; 2. Lowri Jones a Lois Jones, 3. Emma Roberts; *Parau. Bl 3 ac iau:* Elin a Ceri; 4, 5 a 6: Lisa a Bethan; 7-13: Lowri ac Erin, 2. Lois a Lowri; *Grŵpiau. 3 ac iau:* 1af. Pop Roc, 2ail. Cwll Dŵds a Grŵp Grwfi, 3ydd. Sêr Hip Hop a'r Deg Disglair; 4, 5 a 6: 1af. Angylion Bach Kelly, 2. Jackson Ten, 3. Lliwiau Llachar; 7-13: Grŵp Sasha.

ENILLWYR Y TLYSAU

Tlws Teulu Treflys a thlws bychan wedi ei roi gan Enid a Meurig Huws: Elan Jones. **Tlws Teulu Cefn Ffrwd** a thlws bychan wedi ei roi gan Rhys a Siân Harries: Fflur Huws. Diolch yn fawr i'r gynulleidfa niferus oedd yno yn cefnogi.

Cystadlaethau Llwyfan Prynhawn CERDD

Cylch Meithrin: 1. Gwen 2, Cory, 3. Lois a Cara. *Unawd Dosbarth Meithrin:* 1. Owain, 2. Iddon, 3. Tomos. *Dosbarth Derbyn:* 1. Llion, 2. Millie May, 3. Haf a Gethyn. *Bl. 1:* 1. Elan, 2. Ceri, 3. Lowri a Rhys. *Bl. 2:* 1. Celt, 2. Heledd, 3. Cai ac Elin. *Bl. 3 a 4:* 1. Emma, 2. Gwenllian, 3. Erwan.

Unawd piano 1, 2 a 3: 1.

Gwenllian, 2. Iolo, 3. Erwan. *Parti canu 1, 2 a 3:* 1. Parti'r Ddraig Goch, 2. Parti'r Ffair. *Offerynnol Bl 1-6:* 1. Tomos, 2. Hari, 3. Elen. *Alaw Werin:* 1. Gwion Wyn. *Unawd Cerdd Dant:* 1. Gwenllian.

LLEFARU

Cylch Meithrin: 1. Elis, 2. Owain, 3. Cara. *Dosbarth Meithrin:* 1. Tomos, 2. Alaw Fflur, 3. Owain a Lois. *Blwyddyn Derbyn:* 1. Cai, 2. Llion, 3. Haf ac Erin. *Blwyddyn 1:* 1. Dylan, 2. Ben, 3. Lowri a Rhys. *Blwyddyn 2:* 1. Sion Arfon, 2. Celt, 3. Ilan a Twm. *Blwyddyn 3 a 4:* 1. Gwenllian, 2. Ywain Emrys, cyd 3ydd Sara ac Erwan. *Parti Llefaru 1, 2 a 3:* 1. Parti Hufen Iâ, 2. Parti Jacs Codi Baw.

Cystadlaethau Nos CERDD

Parti Cerdd Dant: Rwbiwr Gwyn. *Unawdau Bl. 5 a 6:* 1. Siôn Alun, 2. cyd 2ail Gwion John a Gwion Wyn, 3. Moli a Rhianwen. *Bl. 7, 8 a 9:* 1. Eiry, 2. Rhydian, 3. Siôn a Caio. *Bl. 10-13:* 1. Enfys, 2. Gwilym, cyd 3ydd Cai, Gruffydd John a Lowri Ann. *Parti Canu 4, 5 a 6:* 1. Parti'r Popars, 2. Parti Gwreichion. *Deuawd:* 1. Lois ac Elan, 2. Cai a Robin, cyd 3ydd Lowri ac Elid, Caio a Siôn. *Unawd piano 4, 5 a 6:* 1. Gwion Wyn, 2. Hari, cyd 3ydd Elen ac Elan. *Piano Bl. 7, 8 a 9:* 1. Rhydian. *Piano Bl. 10-13:* 1. Siôn Elwyn, 2. Manon Elwyn, cyd 3ydd Bronwen a Gethin. *Offerynnol Bl 7, 8 a 9:* 1. Alaw, 2. Richard. *Bl. 10-13:* 1. Cai, cyd 2il Siôn a Manon. *Alaw Werin:* 1. Catrin, 2. Enfys, 3. Lowri. *Cerdd Dant:* 1. Lowri. *Meimio i Record:* 1. Cai, Siôn a Robin. *Grŵp Offerynnol:* Y Teis a'r Caps. *Cân Gyfoes:* Sgarabs. *Côr Uwchradd:* Cac o Yd.

ENILLWYR Y TLYSAU

Tlws Coffa Goronwy Jones (lleisiol cynradd): Siôn Alun;

Tlws Coffa W. G. Ellis (piano cynradd): Gwion Wyn;
Tarian Aelybryn (offerynnol cynradd): Tomos Evans;
Tlws Coffa Mrs Joan Ffoulkes (lleisiol uwchradd): Enfys Roberts;
Tlws Coffa John M. Williams (offerynnol uwchradd): Sion Elwyn;
Tlws Teulu Penparc (offerynnol uwchradd): Cai Jones;
Cwpan Llwyn Eithin (parti canu cynradd): Y Popars.

LLEFARU

Blwyddyn 5 a 6: 1. Gwion Wyn, 2. Moli, cyd 3 Rhianwen ac Elen. *Blwyddyn 7, 8 a 9:* 1. Lowri, 2. Lois. *Blwyddyn 10-13:* 1. Ilid, 2. Robin, 3. Enfys. *Parti 4, 5 a 6:* 1. Y deisen orau, 2. Cegin Cogs. *Darllen ar y pryd:* 1. Dyfan, cyd 2. Greta a Cai, cyd 3. Siôn a Gwilym. *Sgets:* 1. Lle mae Robot? 2. Criw Dyfan.

ENILLWYR Y TLYSAU

Cwpan Arian (llefaru cynradd): Gwion Wyn;
Cwpan Konica (llefaru uwchradd): Ilid Jones;
Tlws coffa Siân Robinson: Dyfan Coles;
Cwpan Parc y Wern (parti llefaru cynradd): Y deisen ora.

Cyflwynwyd y prif dlysau i'r

ddau lenor gan Maldwyn John a Manon Gwynedd a Gareth a Manon Griffiths. Roedd y tlysau bach yn rhodd gan Siencyn a Glenys Griffiths, Wil a Nora Parry, Brian ac Eirlys Sharpe, Elwyn a Gwyneth Jones, Menna Dauncey Williams, Alun a Sheila Foulkes, Huw a Nan Jones, Gareth a Rhian Hughes, Margaret a Phillip Williams, Arwel a Iola Jones a Deilwen ac Elwyn Hughes.

Yr oedd Gorsedd y Beirdd dan ofal Adran yr Urdd ym Methel, a Helen Mai Jones fu'n trefnu. Geraint Elis oedd yr Archdderwydd, Cai Jones yn canu cân y cadeirio, gyda Manon Elwyn a Gwilym Rhys yn chwythu'r corn gwlad. Cyrchwyd y llenorion i'r llwyfan gan Lisa Hughes, Gwenno Jones, Elaine Haf a Siôn Alun. Gwion John oedd ceidwad y cledd. Hari Ifans a Gwion Wyn fu'n cyfarch y llenorion gyda dau bennill oedd wedi eu cyfansoddi gan y beirniad llên, Tammi Gwyn. Glenys Griffiths oedd yn cyfeilio.

Cawsom eleni, am y tro cyntaf, wledd gan enethod blwyddyn 2 o'r ysgol gynradd, yn perfformio'r ddawns flodau, dan ofal Mari Williams, a Hari Ifans, gyda Moli a Manon Elwyn yn cyfeilio.



Llenor Cynradd: Rhys Grail, a Llenor Uwchradd: Gethin Griffiths.



Mrs Mair Jones a Mrs Myfanwy Harper yn cyflwyno Tlws Coffa Goronwy Wyn Jones i Siôn Alun.

'Ar gyfer heddiw'r bore...'

Yn blygeiniol daw clochdar elir o'r côr
heddiw, fel 'fory, gobeithio, 'n sicr ddoe;
ym mhwll mwd yr adwy mae'r bustych stôr,
ac o 'cae-dan-ty' 'n atodiad i'r sioe,
hesbinod a'u brcfiadau truan - braidd.
Ond calon gwyd wrth glywed brych y coed,
a nodau main 'rhen robin, biga'r haidd,
mewn briwsion o'r cowt, sgôr gobaith heth 'rioed;
Ust!
Ar yr awel - nodau peraidd sydd
(nid o'r celyn, iorwg na'r uchelwydd chwaith)
daw'r hen hen hanes, yng ngharolau'r dydd
a stori gwyth y gwythiau 'r ocsocdd maith.

Un bore arall yw i'r da i gyd •
ond bendigaidd awr rhai sy'n ceisio'r crud!

NORMAN CLOSS (FACH-WEN)

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Y CLWB 300. Enillwyr y Clwb am fis Hydref oedd: £30: Ms Sylvia Thmpson, 21 Bro Waen; £20: Mr Emrys Hughes, Treflan Isaf; £10: Mr Wilf Jones, Treflys.

MERCHED Y WAWR. Linda Hughes o wasanaeth 'Calon Lân' oedd y wraig wadd yng nghyfarfod mis Hydref. Mae gwasanaeth Calon Lân yn rhoi cefnogaeth gydol oes i bobl sy'n dioddef gyda phroblemau'r galon.

Bwyta cinio Nadolig fyddwn yn ystod ein cyfarfod nesaf, ar 26 Tachwedd. Edrychwn ymlaen i fynd i Glwb Golff Caernarfon am wledd. Bydd bws ar gael i gludo pawb sydd am ddod.

Ni fydd gennym gyfarfod ym mis Rhagfyr (am resymau amlwg!) Ym mis Ionawr (28ain) bydd Wil Lloyd Davies yn dod atom i sgwrsio am 'Gymry llai enwog y byd'.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yn y cyfarfod ar 1 Hydref, croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, y wraig wadd, Mrs Pat Jones o Borthmadog. Cafwyd pnawn hwyliog ac egniol iawn yn ei chwmmi, yn gwneud 'aerobics cadair'. Roeddem yn gwybod, cyn diwedd y pnawn fod gennym gyhyrau mewn llefydd nad oeddynt wedi gweithio ers llawer o amser! ond roedd pawb wedi mwynhau yn fawr. Diolchodd y llywydd i Mrs Jones.

Ar 5 Tachwedd, cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol. Croesawodd Catherine Jones, Pat Parry i lywio'r cyfarfod ar ran y Ffederasiwn.

Cafwyd adroddiad blynnyddol Anne Williams, yr Ysgrifennydd, ac adroddiad Catherine Jones, y Llywydd. Cyflwynwyd y Fantolen Ariannol gan Rose Ann Hughes, y Trysorydd. Ail-etholwyd yn unfrydol yr holl swyddogion am y flwyddyn nesaf. Diolchodd y Llywydd i

Pat am ei gwaith trylwyr fel arfer ac hefyd i'r holl swyddogion a'r aelodau am eu help yn ystod y flwyddyn, gan fawr hyderu y bydd yn bosibl annog mwy o aelodau i ymuno â ni. Er mai ychydig o aelodau sydd gennym ar y funud mae pawb yn gwneud eu gorau i ni allu cael prynhawniau difyr gyda siaradwyr gwadd diddorol.

Mae croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â ni. Rydym yn cyfarfod yn Festri Eglwys y Waun am 1.30 y pnawn ar y dydd Iau cyntaf yn y mis. Bydd y cyfarfod nesaf ar 3 Rhagfyr pryd y bydd Mr Delwyn Williams yn dangos lluniau digidol i gerddoriaeth

CYLCH TI A FI. Rydym yn treialu amser newydd, sef 11.00 tan 1.00 o'r gloch bob dydd Llun yn y Ganolfan. Bydd Gwenda o'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol gyda ni am rai wythnosau eto yn sôn am Chwarae a Rhif. Croeso i aelodau hen a newydd! Dewch â bwyd gyda chi os dymunwch fwydo'r plant amser cinio.

PRIODASAU

Ar dydd Sadwrn Calan Gacaf, yng Nghaernarfon, priodwyd Tony a Helen Brown, 2 Bryn Golau. Estynnwn ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i chi eich dau.

Yng Nghapel Horeb, Llanrwst, priodwyd Meilir Gwynedd, Nant, â Lynnsey o'r Bontnewydd. Bu'r wledd yng Ngwesty Plas Maenan, Llanrwst. Dymunwn bob hapusrwydd a'n llongyfarchiadau i'r pâr ifanc. Maent wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd ac enw eu cartref yw Gwyrfa, gan fod yr afon Gwyrfa yn rhedeg trwy'r ddau bentref.

Ar 4 Hydref yn Abaty Leez (Priory) yn Essex priodwyd Helen Wyn Hughes, 15 Tref Eilian, â Jonathan Bucke, mab hynaf Robert a Margaret Bucke. Maent wedi ymgartrefu yn

Lostock, ger Bolton. Dymunwn bob hapusrwydd i'r ddau ar eu priodas.

DYWEDDIAD.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Elin Evans, Arfryn, ar ei dyweddiad â Hywel Roberts o Gaerdydd. Mae'r ddau ohonynt ar hyn o bryd ar ymweliad â Phatagonia, ble mae Hywel yn gweithio gyda Menter Iaith.

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Mair a Colin, Stad Bro Waun, ar enedigaeth eu mab bach, Dion, brawd bach i Robin, wŷr i Mrs Megan Williams, Bryn Difyr a gor-wŷr i Mrs M. Jones, Glasfryn Teras, Glyn Afon.

Bu Sioned Williams yn gweithio yn Syrjeri Liverpool House ac yn awr mae'n gweithio yn yr Antur. Dymunwn ei llongyfarch hi a'i phriod, Dylan, ar enedigaeth eu mab bychan, Ifan Eurwyn.

EISTEDDFOD YSGOL

UWCHRADD BRYNREFAIL. Llongyfarchiadau i blant a phobl ifanc y pentref sy'n ddisgyblion yn yr ysgol ac a fu'n cystadlu ac yn llwyddiannus yn y gwahanol gystadlaethau yn yr Eisteddfod. Llongyfarchiadau mawr i Erin Ynyr, Dolwar Fach, ar ennill Tlws yr Ifanc am ei gwaith llên.

GWASANAETHU. Yn ystod yr oedfa fore Sul, 8 Tachwedd, cyfeiriodd ein gweinidog, y Barchedig Gwenda Richards, at wasanaeth Mr Arthur Ellis, Min y Nant, i'r capel yn y Waun. Diolchodd iddo am ei waith fel blaenor am hanner cant o flynyddoedd. Ar ei rhan ei hun ac ar ran aelodau y capel anfonodd Mrs Richards gofion cynnes ato ef a'i briod, Edith.

DIOLCH. Dymuna Mrs Gwendoline Rowlands, 5 Stad Bryn Golau, ddiolch i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau am y dymuniadau da a dderbyniodd drwy alwad, cerdyn a rhodd pan fu'n dathlu cyrraedd ei 70 mlwydd oed. Derbyniwch ein dymuniadau gorau ni i gyd, Gwendoline.

DIOLCH. Dymuna Shona Morris a theulu Bryn Celyn ddiolch am y gofal a dderbyniodd Shona wedi iddi fod mewn damwain car yn ddiweddar. Diolch hefyd i'w ffrindiau a gysylltodd ac a alwodd yn Bryn Celyn i edrych amdani. Mac wedi gwella'n dda erbyn hyn.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref o'r ysbty i Ioan Jones, Dwyfor, wedi iddo gael triniaeth tynnu ei donsiliau. Hefyd i Gwion Lowe, ger y Ffynnon, wedi iddo frifo a chael helynt i'w goes.

Croeso hefyd i Paul Evans, Rhoslyn, adref o Ysbyty Frenhinol Lerpwl, ble y derbyniodd lawdriniaeth i gael aren newydd. Derbyniodd Paul aren gan ei dad, Cadwaladr

Evans, Llecyn Clyd, Caeathro. Mawr hyderwn y bydd y ddau ohonoch yn gwella a chryfhau o ddydd i ddydd.

GWELLA. Da gweld Aled Taylor Baladeulyn, Stad Dôl Erddi, yn gwella wedi iddo dderbyn dwy lawdriniaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf. Ysu i gael mynd yn ôl at ei waith y mae Aled.

Anfonwn ein cofion at Mrs B. Coles, Bryn Rhian, wedi iddi ddisgyn a thorri ei braich.

Llithrodd Mrs Rhian Ellis, Ty'n Llidiart, a chracio asgwrn, hefyd mae Eurig Wyn, Y Frenni, wedi syrthio a thorri asgwrn.

Gobeithiwn yn fawr y byddwch oll yn gwella yn fuan. **CYDYMDEIMLWN** yn ddwys â Mrs Nelma Pritchard a'r teulu, Stad Croes y Waun, yn eu profedigaeth o golli chwaer Nelma yn ddiweddar.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at Mrs Gwyneth Thomas, Syrjeri Liverpool House, yn ei phrofedigaeth o golli ei mam yn frawychus o sydyn.

PROFEDIGAETH. Yn dawel yng Nghartref Nyrsio Santysilio, Llanfairpwll, Ynys Môn, bu farw Marian Wyn Jones (Foel, Dôl Erddi). Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu, ei brawd, Gruff, ei dwy chwaer yng nghyfraith, Bessie a Nancy, a fu mor ofalus ohoni, ac ag Olwen, fu'n ffrind agos a ffyddlon i Marian. Cyn ei gwaeledd Marian oedd yn gyfrifol am dderbyn y bwndel o'r Eco bob mis a'i ddosbarthu yn y Waun.

CYFARCHION Y TYMOR. Dymuna Mr Alun Mabon, sydd yng nghartref Nyrsio Cerrig yr Afon, Y Felinheli, anfon ei gyfarchion am Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w deulu a'i ffrindiau, gan na fydd yn anfon cardiau eleni. **DYMUNA** Gwion Lowe a'i deulu, Ger y Nant, ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion, cardiau a'r holl ddymuniadau da a dderbyniodd yn ystod y cyfnod y bu yn yr ysbty wedi iddo frifo ei goes.

PEUGEOT
BMW
CLUTCHES
TYRBO

AUDI SEAT PORSCHE VOLKSWAGEN

DIESEL PETROL CHWISTRELLIAD ARBENIGWYR



***Cymhwyster*
BOSCH**

**I roi gwasanaeth i'ch car
heb effeithio ar
y warant***

**Dewis arall dibynadwy
yn lle'r Prif Ddaliwr**

* Gyda rhai amodau

Trwy'r cerbydau a gwerthu partiau sbâr
lle da y gellwch ei fforddio

Stad Cilynn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a.v.w.co.uk

AIR CON GWASANAETH BATRIS

VOLVO MERCEDES SAAB

SWEDEN
TRYPANOL
CAMBELTS
YR ALMAEN
YR ALMAEN
MEINFORIO

**Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun**



Y SAMARIAID
(01248) 674985

YSGOL BRYNREFAIL

Ymweliad Iwan Llwyd a Mei Mac â'r Adran Gymraeg

Ar fore Iau, Tachwedd 5ed, daeth y ddau fardd Iwan Llwyd a Mei Mac atom i'r adran Gymraeg i drafod gwaith T. H. Parry-Williams a rhai o feirdd eraill y cwrs lefel A. Cafodd disgyblion y chweched dosbarth sy'n astudio Cymraeg, tri deg pump ohonynt, gyfle i wrando ar Iwan Llwyd yn ymdrin â'i gerddi ei hun ar y cwrs yn ogystal â thrafod thema marwolaeth yng ngwaith T. H. Parry-Williams a'i agwedd tuag at ei fro; Eryri.

Aeth Mei Mac ati i ddadansoddi ac egluro'r gerdd 'Cymwynaswr' gan Ceri Wyn Jones ac 'Yma Mae Fy Lle' gan



Gwyn Thomas gan groesgyfeirio rhwng y cerddi hyn a cherddi eraill ar y cwrs. Mwynhaodd y disgyblion yn arw, ac yr oedd pawb yn gytun

ar ddiwedd y bore eu bod wedi gweld rhywbeth newydd yn y cerddi a bod eu dealltwriaeth o waith T. H. Parry-Williams wedi ei ddyfnhau

Sioe 'Hei Hogia! yn ymweld ag Ysgol Brynrefail

Ar fore Mawrth, 10fed Tachwedd 2009, daeth tri o actorion i'r Ysgol i berfformio rhannau o chwe nofel gyfoes, tair Cymraeg a thair Saesneg. Bwriad y cynllun hun sef 'Hei Hogia!' yw annog disgyblion i ddarllen a mwynhau llyfrau ar eu liwt eu hunain. Mae'r cynllun yn ymweld â'r Ysgol trwy drefniant gyda'r adran Gymraeg yn rheolaidd dros y blyneddau diwethaf ac wedi bod yn llwyddiant. Yr un oedd y stori dydd Mawrth diwethaf

Roedd disgyblion blwyddyn 8, 148 ohonynt, wedi eu hudo gan y perfformiadau. Cawsant fodd i fyw wrth wrando ar rannau doniol o 'Y CMM', 'Honco', 'Fantastic Mr Fox', a 'Ramboy' tra bod y darlleniad o 'Eagle Day' yn fwy difrifol ac yn llawn cyffro.

Yn ôl tystiolaeth y disgyblion eu hunain, y perfformiad o 'Figi ap Sgiw-Ty Bach Tynged' oedd wedi eu plesio orau. Roedd yr hiwmor a'r doniolwch yn y rhan a glywsant wedi perswadio llawer ohonynt i fynd ati i fenthycar llyfr o'r llyfrgell a'i ddarllen trostynt eu hunain.

Diolch i'r actorion: Dyfrig Evans, Cath Aran a Darren am eu perfformiadau gwych a'u llwyddiant yn ysbrydoli'r plant. Edrychwn ymlaen at eu hymweliad nesaf â'r Ysgol ymhen y flwyddyn.

EISTEDDFOD YR YSGOL



Enillwyr Tlysau Pwnc

Rhes Gefn (chwith i'r dde): Catrin Gruffudd: Tlws Ffrangeg; Mari Tachwedd: Tlws Emma Bernard; Swyn Llŷr: Tlws Cymraeg; Manon Thomas: Tlws Celf; Rhun Williams: Tlws Dyniaethau.

Rhes Flaen (chwith i'r dde): William Lamb: Tlws Technoleg Gwybodaeth a Thlws Mwyaf o Farciau Ymlaen Llaw; Lois Jones: Tlws Technoleg; Erin Ynyr: Tlws Llenor Iau; Anna Wyn Jones: Tlws Saesneg a Thlws Technoleg Bwyd; Gerwyn Jones: Tlws Mathemateg.



Mari Tachedd Pierce o dŷ Eilian, enillydd Tlws Emma Bernard (Adroddiad Unigol Gorau o'r Llwyfan).



Enfys Mai, Robin Jones a Dyfan Coles o dŷ Eilian, gyda chwpanau a thlysau Darwasio Disgo, Y Ty Buddugol, Parti Ffrangeg, Y Sgets, a Gwpan Mwyafrif o Farciau Offerynnol.



Cai Jones ac Ella Christie o dŷ Gwyrfa, enillwyr Cwpan Mrs Welch (Côr Deulais) a Gwpan John Parry (Parti Adrodd).



Angharad Morris, enillydd y Tlws Saesneg.



Charlotte Prichard o dŷ Elidir, enillydd y Parti Bechgyn buddugol



Huw Griffiths ac Awen Hughes o dŷ Eryri, enillwyr cwpanau Câr Ysgafn a Pharti Merched.

Cofiwch gefnogi ein hysbysebwy

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CLWB Y MERCHED. Ym mis Hydref, croesawodd y Llywydd y nifer dda o aelodau, aelodau newydd a'r rhai a ymunodd â ni am y noson. Dymunodd adferiad buan i Mair, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen a chafwyd ymddiheuriad oddi wrth Helen a Nia.

Naws gartrefol ac addysgiadol a gawsom am weddill y noson yn gnghwmni Rhiannon, aelod o'r Clwb. Mis Mai eleni aeth hi a'i gŵr, Derwyn, i ymweld â'i merch, Mari, sydd ar hyn o bryd yn athrawes yn Japan. Bu Mari yn un o 200 allan o 3,000 a lwyddodd yn ei chais gyda JET i dreulio blwyddyn yn gychwynnol fel athrawes Saesneg i blant yn Japan. Yn ei ffordd ddiwylliedig hi, a thrwy luniau amrywiol, aeth Rhiannon â ni i ogledd Japan i ymweld â phentref bach litom yn ardal Soma, lle mae Mari wedi gwneud cartref iddi ei hun. Mae erbyn hyn wedi gweithio'n galed i feistrolir iaith yn ogystal â'r gwaith ysgrifenedig. Mae hi'n athrawes mewn pedair ysgol ble mae 10 plentyn i bob athro. Cawsant groeso arbennig gan bobl y pentref a chwrdd â'r cyfarwyddwr addysg, y llwydoraethwyr a'r athrawon yn ogystal â'r Maer.

Adroddodd Rhiannon ei hanes yn dysgu'r plant sut i goginio teisen gri dan oruchwyliaeth a mawr oedd y blasu. Cafwyd eu hanes yn symud ymlaen i weld rhagor o'r wlad ryfeddol hon gan ymweld â Hyoto a Tokyo. Drwy gyfrwng y sgwrs cawsom ninnau gipolwg ar ysblander yr adeiladau, eu ffordd o fyw a phrysurddeb Tokyo. Diolchodd y Llywydd iddi am greu darlun mor fywiog o'u taith.

Ar ddiwedd y noson gweiniwyd paned o de a bisgedi blasus cartref wedi eu paratoi gan Nia. Rhoddwyd y raffl gan Catrin ac fe'i henillwyd gan Bethan.

BWCIN DWBWL! Paham, O Paham roedd rhaid plygu'r *Eco* ar yr un noson â Chlwb y Merched? Dyna oedd y gŵyn ddiwedd mis Tachwedd. Onid yw Clwb y Merched ar y pedwerydd nos Iau ymhob mis trwy'r gaeaf? Wel, daeth yr ateb. Plygir yr *Eco* yng Nghaeathro ym mis Tachwedd hefyd, fel arfer ar y pedwerydd nos Iau, ond am ryw reswm weithiau ar y pumed nos Iau.

Eleni, yn absenoldeb y rhestr deuddeng mis ar ail dudalen yr *Eco*, daeth neges trwy'r argraffwyr bod tro Caeathro wedi'i symud i fis Rhagfyr. Dyna lwc sâl - yng nghanol miri'r 'Dolig, ond o leiaf nid ar y pedwerydd nos Iau ym mis Rhagfyr. O na! - neges y pantomeim - gweler yr ail dudalen o'r *Eco* mis Hydref. Rydan ni'n ôl ar y pedwerydd nos Iau! 'IE' yr un noson â Clwb y Merched.

Wel, diolch i gydweithrediad pawb roedd yn bosibl, ond yn flinedig. Plis, plis, a oes modd mynd yn ôl i'r hen drefn o hysbebu'r drefn plygu cywir am y deuddeg mis nesaf BOB MIS yn yr *Eco*? A oes unrhyw un yn darllen acw ac yn deall problemau pentrefi bychain? **SAMARITAN DA.**

Llongyfarchiadau i Cadwaladr (Wally) Evans, Llecyn Clyd, am roi un o'i arenau i'w trawsblannu i gorff ei fab, Paul. Erbyn hyn mae'r ddau adref ac yn gwella ar ôl cyfnodau mewn ysbyty yn Lerpwl.

Faint ohonoch chi sy'n cario cerdyn trawsblannu. Doedd dim

sôn am y cardiau ym meddygfa newydd 'Hafan Iechyd' Caernarfon yn ddiweddar. A oes gwybodaeth ar gael ym Meddygfa'r Waunfawr?

Y DYN BIONIC. Erbyn hyn mae Bryn Griffiths, Delfryn, yn dechrau arfer gyda'i benelin newydd. Diolch i Dilys am ei gludo i Abergele ac yn ôl, droeon yn ddiweddar.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Cynhelir yr oedfaon canlynol ym mis Rhagfyr

6: 11.00: Ysgol Sul
2.00: Parch Iorwerth Jones Owen

13: 11.00: Ysgol Sul

20: 11.00: Ysgol Sul

5.30: Oedfa Nadolig y Pentrefwyr

27: Dim oedfa nac Ysgol Sul.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ym mis Tachwedd oedd: £40: (47) Eric ac Eluned Roberts, Graig Lwyd; £25: (03) Guto Bebb, Bryn Mair; £15: (75) Mai Jones, Crud yr Awel; £5: (102) Llio Jones, Glanrafon.

Diolch yn fawr i'r hapchwaraewyr newydd. Mae eu cyfraniadau hwy a'r aelodau ffyddlon eraill yn cyllido'r gweithgareddau amrywiol er budd PAWB ym mis Rhagfyr.

GWOBR. Llongyfarchiadau i Norman Hughes, Llyngele, ar dderbyn gwobr 'Dyna Dda', Heddlu Gogledd Cymru am ei wasanaeth i'r gymuned sipsiwn a theithwyr yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

MARATHON ERYRI. Llongyfarchiadau i Wyn Jones, Erw Wen, ar gwblhau ras Marathon Eryri - marathon galetaf y byd, - mewn 4 awr 22 munud.

NADOLIG YNG NGHAEATHRO. Dyma'r arlwy llawn sydd o'n blaenau trwy fis Rhagfyr yng Nghaeathro:

Nos Iau, 3 Rhagfyr:

7.00 Ffair Nadolig, Canolfan y Capel

Dydd Sadwrn, 12 Rhagfyr:

Mynd i nôl, codi ac addurno'r Goeden Nadolig ar Y Sgwâr

Nos Lun, 21 Rhagfyr:

5.30 Parti Nadolig y Plant Iau, Canolfan y Capel.

Nos Fawrth, 22 Rhagfyr:

19.30 Canu Carolau gyda Seindorf Llanrug o amgylch y Goeden Nadolig (neu yng Nghanolfan y Capel pe bai'r tywydd yn arw)

Dydd Gwener, 25 Rhagfyr:

DIWRNOD NADOLIG

Dymunwn Nadolig Llawn i bawb yng Nghaeathro a'r cyffiniau.

GWASANAETH GOFAL CARTREF Caredig cyf

GOFALU AM EIN CYMUNEDAU

- ASESU MEWNOL A CHYNLLUN GOFAL
- GOFAL PERSONOL-BATHIO
- CYMORTH I GODI A MYND I'R GWELU
- EISTEDD YN YSTOD Y DYDD A GYDA'R NOS
- GLANHAU • SIOPA • COGINIO • OWTIN
- CEFNOGI POBL
- CYSYLLTU A GWASANAETHAU ARBENIGOL

A ydych yn hoffi gweithio a phobl neu ffansi gyrfa newydd?

*Mae Caredig Cyf yn awyddus i gyflogi pobl lleol i weithio gyda'n cwmni. Mae hyfforddiant a chefnogaeth trwyadl ar gael. Rydym yn recriwtio yn gyson fel mae'r cwmni yn ehangu ac angen gweithwyr i weithio unai rhan amser, amser llawn neu gyda'r nos. Am fanylion pellach cysylltwch a-

Iola neu Ellis Wyn Jones ar-

Bangor 01248 672622 • Llun i Gwener • Oriau'r Swyddfa 9-5pm.

UNED F3 • INTEC • Ffordd y Parc • Parc Menai • Gwynedd LL57 4FG
FFON-01248 672622 • FFACS- 01248 672601
EBOST- post@caredig.com

ARVONIA



- Gwylliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.



- Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud; archebiadau gwasty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvonias.co.uk • Gwefan: www.arvonias.co.uk

DMM



Nadolig Llawen

a

Blwyddyn Newydd Dda

oddi wrth bawb yn

DMM


LLANBERIS



www.dmmwales.com


**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth bawb yn**

**SIOP a FFERM FÊL
YR WYDDFA**



STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: 870218



Diolch am eich
cefnogaeth drwy'r
flwyddyn

**GWIN
a
MEDD**



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

**Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon**

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO



*Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda*

oddi wrth Dylan

Stryd Fawr Llanberis

Ffôn: 870777

Manteisiwch ar y cyfle i brynu dillad a nwyddau
awyr agored – hyd at **50%** i ffwrdd.

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU



oddi wrth



Dylan Davies

**MODURDY'R
WYDDFA**

LLANBERIS Ffôn: 870225



Ceir ar werth; M.O.T.

Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll
oddi wrth bawb yn siop**



HAIRLINES

Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870328



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

PARADWYS

Therapi Iechyd a Harddwch

Triniaeth • Gwyneb • Llygaid • Croen • Dwylo/Traed

(PRIODAS, ACHLYSURON ARBENNIG)

TYLINIO (MASSAGE) AMRYWIOL

59 STRYD FAWR • LLANBERIS 01286 872645



**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
oddi wrth bawb yn y gwesty.
Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn.**

★ Priodasau ★ Dathliadau
★ Achlysuron Arbennig
★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul



THE LEGACY

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 0870 832 9903

wrth droed yr Wyddfa



Cyfarchion Nadolig
PENISARWAUN
a BRYNREFAIL

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr yr Eco

Nadolig Llawen
a diolch am eich
cefnogaeth

oddi wrth

Alwyn a Sarah

Blodau
Racca

Penisarwaun Ffôn: **870605**

Rithoedd Celyn,
Coed Nadolig, 'Crem Pots' a
Rithoedd Drws.

Basgedi Planhigion,
Trefniadau blodau Silc.



RHODD O'R GALON YW BLODAU

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL-07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
*Cyrhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd **Rolls Royce***
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL



Nadolig Llawen
A Blwyddyn Newydd Dda
i holl ddarllenwyr yr Eco

Hoffwn ddiolch i'n
cwsmeriaid lleol am eu
cefnogaeth trwy gydol y
flwyddyn!



Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban
CYF



Cyfarchion Nadolig
CWM-Y-GLO



Gwasanaeth Gwres
a Plymio



Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH
Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth

Richard S. Humphreys



ORIEL
CWM
Cwm-y-glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

Nadolig
Llawen a
Blwyddyn
Newydd
Dda



oddi wrth **IRFON** a phawb yn

LONDON
GARAGE
Cwm-y-glo

Ffôn: 870234

Ar agor: 8.30-6 Llun-Gwener
8.30-1 Sadwrn



MOT. Disel, Petrol
Gwasanaeth ac
Atgyweirio

OAK

AM BETROL, DEISEL,
OLEW, AMRYFAL
ANRHEGION MODUR
A PHAPURAU NEWYDD

OAK

GORSAF BETROL
LONDON GARAGE
CWM-Y-GLO

Ffôn: Llanberis 872046

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i bawb



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda

ODDI WRTH

MORRIS BROS.
BECWS GORS BACH, CWM Y GLO
Ffôn: Llanberis 870430

HEFYD YM

MECWS PEN Y BRYN

LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268

70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 675526

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YSGOL GYMUNED.

Diwrnod gwisgo pinc, 23 Hydref. Diolch i bawb a wnaeth ymdrech i wisgo pethau pinc ar y diwrnod yma. Gwnaed casgliad o £140.10c tuag at yr achos teilwng, Gancr y Fron.

Ymgyrch plentyn y Nadolig. Casglwyd 19 o foscys o'r ysgol ddydd Mercher, 11 Tachwedd. Roeddent yn llawn o anrhegion i'w hanfon i blant llai ffodus. Diolch i'r rhai a fu'n brysur yn paratoi'r bocsys.

Noson Agored. Cynhaliwyd noson agored i'r Rheini gael cyfle i edrych ar waith eu plant ddydd Mawrth, 17 Tachwedd. Roedd cyfle hefyd i bawb alw draw yn y gegin i flasgu gwahanol fwydydd o'r fwydlen cinio ysgol. Diolch i Anti Carolyn a Gwyneth am baratoi'r bwyd.

Ffair Nadolig. Cynhelir y Ffair Nadolig nos Iau, 10 Rhagfyr. Bydd amryw o stondinau gwahanol ar gael. Gobeithir y bydd Siôn Corn yn galw draw yn ystod y noson. Croeso cynnes i bawb.

Cyngerdd Nadolig. Cynhelir y cyngerdd eleni ddydd Mawrth, 15 Rhagfyr. Bydd perfformiad am 1.30 o'r gloch y pŵn a 6.00 o'r gloch yr hwyr. Bydd yn bosibl prynu tocynnau o'r ysgol. GWELLHAD.

Dymunir gwellhad buan i bawb sy'n sâl yn y pentref. Rydym yn hynod falch fod Siôn Jarvis a Jordan wedi gwella wedi eu triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

YSGOL SUL BOSRA. I ddathlu'r Nadolig, trefnir Trip ar drên bach Llyn Padarn fore Sul, 6 Rhagfyr, am 10.15 y bore. Bydd cyfle i'r plant gael gweld Siôn Corn, Sant y Plant, a chael anrheg fach ganddo. Gofynnir i bawb fod yno yn brydlon erbyn

10.00 o'r gloch. Pris i oedolion fydd £6.50. Bydd aelodau'r Ysgol Sul am ddim. Enwau rhag blaen i Ffiona Jones. (8722131) neu i Elizabeth Jones neu Ann Ifans.

CYDYMDEIMLAD. Anfonir ein cydymdeimlad llwyraf â Rhian Thomas, 2 Penrhos Wylfa, Seion, a'r plant, Elin a Morgan, a'r teulu oll yn eu colled annisgwyl ym marwolaeth Darren, gŵr ymroddgar, tad amhrisiadwy, mab a mab yng nghyfraith annwyl a brawd yng nghyfraith arbennig.

Ein cydymdeimlad dwys hefyd â Betty Pritchard, 3 Llys y Gwynt, ar golli ei chwaer yng nghyfraith a modryb i Heulwen a'r teulu.

Cydymdeimlir yn ddwfn hefyd â Nansi Jones, Meillionydd, ar golli chwaer yng nghyfraith annwyl, Marian Wyn o'r Waunfawr, a modryb garedig i Annwen a Dylan. Ein cydymdeimlad â'r teulu oll.

CRONFA PENSIYNWYR. *Pêl Bonws Loteri.* Enillydd mis Hydref oedd Mr Richard Jones, Heather Bank, gyda'r rhif lwcus, 49.

Cinio Nadolig y Pensiynwyr. Eleni byddwn yn mynd i Westy'r Grand yn Llandudno, dydd Sadwrn, 5 Rhagfyr. Bydd y bws yn cychwyn am 10.30 o'r gloch. Bydd cyfle i wneud ychydig o siopa ar ôl cyrraedd ac yna bydd y bws yn cludo pawb i'r gwesty am ginio Nadolig erbyn 1.30 o'r gloch.

Noson Bingo a Ffair Nadolig. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r ddwy noson yma er mwyn codi arian i gynnal y cinio Nadolig eleni.

EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL.



Aelodau Ysgol Sul Bosra yn cofio'r bechgyn ar Sul y Cofio



Llongyfarchiadau i William Lamb, Blwyddyn 7, ar gipio'r Tlws am y mwyaf o farciau ymlaen llaw ac am y Tlws Cyfrifiadureg.

Llongyfarchiadau hefyd i Anest Bryn, Blwyddyn 12, ar ennill y Tlws am y marciau uchaf am gystadlaethau llwyfan. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonoch.

EISTEDDFOD BENTREF. Cynhaliwyd yr Eisteddfod nos Wener, 20 Tachwedd, yn y Neuadd Gymuned. Bydd adroddiad manwl yn y rhifyn nesaf.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Tachwedd a'r enillwyr oedd: Miss Mair Foulkes, Bryn Hyfryd a Wil Jones, Bryntirion. Cynhelir y Noson Wasael ar nos

Fercher, 16 Rhagfyr am 6.00 yn y Neuadd Gymuned (nid Rhagfyr 17). Ceir eitemau gan aelodau Band Deiniolen, Plant yr ysgol, Teulu John Eifion a Marina ac aelodau o'r pwyllgor. Bydd cyfle i ganu'r hen garolau a chael mins pei a phwnsh. Croeso i bawb ddod i ddathlu'r Nadolig.

Pris mynediad: £2 i oedolion. Cynhelir Pwyllgor ar nos Lun, 7 Rhagfyr am 7.00 o'r gloch.

CYFARCHION Y NADOLIG. Bydd Pat ac Arnold yn anfon rhodd i'r Ambiwlans Awyr y Nadolig hwn, yn hytrach nac anfon cardiau. Dymunant Nadolig Llawen i bawb.

Dymuna Eirlys Jones, Gwynant, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion. Ni fydd yn anfon cardiau y Nadolig hwn.

Dymuna Mrs Blodwen Pritchard, Llys y Gwynt, Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Lewyrchus i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Llongyfarchiadau i Delyth Williams, Pen y Gaer, ar gyrraedd pen-blwydd arbennig. Dymuniadau gorau gan y teulu a ffrindiau a phawb yn y pentref.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYD CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
wefan: www.ydyncig.co.uk



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI
CELTIC WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
GYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nwg)



ECO'R
WYDDFA

DRWY'R POST

I dderbyn ECO'R
WYDDFA
i'ch drws bob mis
cysylltwch ag
Olwen Hughes.
Mac ci manylion cyswllt
i'w cael ar y chwith.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

CYMDEITHAS UNDEBOL. Cafwyd noson braf a hwyliog yn nghwmni Mr Norman Evans, Niwbwrch, ar nos Fawrth, 10 Tachwedd a ddangosodd i ni amryw ffordd o drefnu blodau. Prynwyd rhai o'r trefniadau gan rai o'r aelodau ar y diwedd, a chafwyd un trefniant yn anrheg gan Mr Evans, a enillwyd gan Mrs Cathryn James. Llywyddwyd y noson gan Mr Gareth Jones a rhoddwyd y diolchiadau gan Miss Dilys Mai Roberts

CANU CAROLAU A DATHLU'R NADOLIG. Ar nos Fawrth, 8ed o Ragfyr am 7:15yh yn Festri Capel Coch, bydd gennym noson agored i bawb i ymuno â'r Gymdeithas, dan ofal y Parchedig John Pritchard i ddathlu'r Nadolig. Cawn eitemau gan Gôr Lleisiau Lliwedd, arweinydd y gân fydd Mr Gareth Jones a'r cyfeilydd fydd Miss Marcia Thomas. Bydd paned a mins pei ar gael, felly dewch i ganu a dathlu Gŵyl y Geni

YSGOL DOLBADARN

Diolchgarwch - Buom yn dathlu'r Diolchgarwch yn yr Eglwys eleni a buom yn diolch am amrywiaeth o bethau ac yn edrych ar Affrica a Chymru gan weld y tebygrwydd a'r gwahaniaeth rhwng y ddwy wlad. Gwnaethpwyd casgliad tuag at Ymchwil Cancr a daeth rhai o'r plant â ffrwythau yn rhodd i gartrefi henoed y pentref. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac i'r Parchedig Townsend am ei annerchiad.

Ymweliad gan Angela Roberts - Cafodd disgyblion blwyddyn 5 ymweliad gan Angela Roberts o fudiad Oxfam a threuliodd ddiwrnod cyfan gyda'r plant yn trafod hawliau addysg i blant.

Bu'r plant yn cymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau yn ystod y dydd ac roeddynt wedi elwa o'r profiad.

Ymweliad â'r Archfidy - Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 ar daith i'r Archfidy yng Nghaernarfon er mwyn dysgu mwy am y môr a gwaith hanes y tymor. Buont hefyd yn crwydro o amgylch y Doc er mwyn edrych ar sut mae'r lleoliad wedi datblygu dros y blynnyddoedd.

TE BACH NADOLIG.

Cynhelir Te Bach Nadolig yn Festri Capel Coch am 2.00 o'r gloch y pŵn ar 9 Rhagfyr. Bydd y te yng nghwmni 'Côr Bytholwyrdd', sydd yn canu er mwyn pleser. Yr arweinydd yw Mrs Mattie Hughes a'r cyfeilydd yw Marcia Thomas.

Dowch i gyd-ganu, cael paned a sgwrs ac ymuno yn y dathlu.

ADRAN LLANBERIS O'R LLENG BRYDEINIG.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i'r rhai a gymerodd ran yn Apêl Popi 2009. Diolch arbennig i'r merched, Awen, Delyth, Glenys, Gwen a Helen, a fu'n casglu o ddrws i ddrws yn Llanberis ar dywydd mor ofnadwy. Diolch i'r 48 busnes lleol a gytunodd i flychau casglu a popis fod ar gael ar eu safle. Eleni eto, diolch i Army Cadets Llanberis, o dan reolaeth Sgt G. D. Owen, a fu o amgylch y pentrefi cyfagos yn casglu arian at yr Apêl.

Dymunwn ddiolch hefyd i'r rhai a gefnogodd ac a gymerodd ran yn y Gwasanaeth Cofio yn yr Eglwys ac o amgylch y Gofgolofn am 11 o'r gloch fore Sul, Tachwedd yr 8ed, lle cafwyd dau funud o ddistawrwydd cyn gosod y rhithoedd ar y Gofgolofn. Mae ein diolch yn arbennig i Mr Derek Jones am arwain y ddau wasanaeth.



Arweiniwyd yr Orymdaith o'r Eglwys i'r Ganolfan Gymuned gan Gadeirydd yr Adran, Mr Ted Morris.

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn am yr holl gyfraniadau a dderbyniwyd, bydd y swm a gasglwyd yn cael ei wneud yn hysbys yn y dyfodol agos.

DYMUNIADAU'R NADOLIG Cyfarchion y Tymor i'r teulu, ffrindiau a chymdogion oddi wrth Mrs Nan Wilson Evans, Manod, Ffordd Capel Coch. Llauer o ddiolch am eu caredigrwydd trwy'r flwyddyn. **CYFARCHION NADOLIG.** Dymuna Mr Gordon Owen, 46 Maes Padarn, Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w deulu a'i ffrindiau. Ni fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni.

DIOLCH. Dymuna Gwyneth Jones, 4 Stryd Siarlot, ddiolch yn fawr i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 50 oed. Diolch i chi gyd.


TANGNEFEDD YR ŴYL. Dymuna Dilys Baylis dangnefedd dros Ŵyl y Nadolig, a Blwyddyn Newydd llawn bendithion i bawb.

DIOLCH. Dymuna Llifon a Karen Owen, 9 Stryd Yr Wyddfa, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am yr holl anrhegion, cardiau a dymuniadau gorau a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas yng Nghapel Glan Rhyd, Llanwnda ar y 24ain o Hydref.

CROESO ADREF. aCroeso adref i Capten David Forrester-Addie, mab Awen, Stryd Warden, yn dilyn ei wasanaeth hefo'r Royal Artillery yn Camp Bastion, Helmand Province, Afghanistan, ers mis Ebrill. Diolch o galon i bawb yn y cyffiniau am eu cefnogaeth yn ystod amser anodd.

DYMUNIADAU'R NADOLIG Hoffai Enid, Delfryn, Ffordd Capel Coch, ddymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb, gan na fydd yn anfon cardiau'r flwyddyn hon.

DIOLCH. Dymuna Kyffin ddiolch i'w deulu a'i ffrindiau am y dymuniadau da a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd arbennig. Diolch yn fawr iawn.



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

Y BWTHYN TÊ pen y ceunant isaf

LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



Nadolig i bawb
FEN Y GWYNANT 19AF
SWITHYN ADEILADWYD AR WAELODION
LLWYBR YR WYDDFA (O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 18ED. GANRUP. CEWCH GROESO
ARSENIG YMA, YN OGYSTAL A GOLYGFEDD
GWYCH DROS LLYN PADARN A
DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am - 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN

DIODYDD GYDA SŴN NEU BEISEN (Dim prydiau o gwbl)

MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN - YN ADDAS I'R ANABL

Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286) 872606

www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk



DIOLCH AM EICH
CEFNOGAETH
DRWY'R
FLWYDDYN

(01286)-676804

NEU

07770951007



BEICS NEWYDD

acOFFER BEICIO

AR GYFER YR HOLL DEULU

"TRIKES a QUADS" TRYDAN

I BLANT- AM BRIS CALL!!

Dewch i Weld Alan yn BEICS MENAI am Wasanaeth Personol

BEICS MENAI • 1 CEI LLECHI CAERNARFON

e/bost- alan@dedwyddfan.freeserve.co.uk

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

DIOLCHIADAU. Dymuna Gwen a Stephen, Afon Rhos, ddiolch yn arw i bawb am y dymuniadau da, y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth Lois Gwilym. Diolch yn fawr.

CYFARCHION NADOLIG. Dymuna Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb, gan na fydd yn anfon cardiau Nadolig y flwyddyn hon.

Dymuna Gertie ac Ellen, Hafan Elen, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am na fyddant yn gyrru cardiau Nadolig eleni.

PROFEDIGAETH.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â theulu Bryn Heli, Ffordd Glanffynnon. Bu farw Mrs Elizabeth Jones yn sydyn iawn ar 5 Tachwedd. Bydd colled enfawr i'w gŵr, Maldwyn, y plant, John, Gwyneth, Aled a Bryn a'u teuluoedd, yr wyrion a'r wyresau, ei gor-wyr bach, ei brawd Gwilym a'r teulu oll. Roedd Elizabeth yn berson poblogaidd iawn ac fe fydd chwith mawr ar ei hôl gan gyn-blant yr ysgol, ei chydweithwyr, staff yr ysgol a'i ffrindiau lu.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb Cant mis Tachwedd oedd: £20: Mrs E. Roberts (Wavell); £7: Mrs D. Jones, 2 Talybont; £5: Mrs M. Jones, 15 Afon Rhos.

PRIODAS AUR.

Llongyfarchiadau mawr i Owen a Megan, Wern, Ffordd yr Orsaf, ar eu dathliad. Gobeithio y cewch amser gwerthfawr

gyda'r teulu.

CAPEL Y RHOS

LLONGYFARCHIADAU mawr i Mrs. Enid Whiteside Thomas, Dolwar, ar gwblhau deugain mlynedd fel blaenor yn y capel. Cyflwynwyd tystysgrif iddi gan yr Henaduriaeth a thusw o flodau ar ran swyddogion ac aelodau Capel y Rhos.

Diolch yn fawr, Mrs. Thomas, am eich gwaith a'ch ymroddiad ar hyd y blynyddoedd.

OEDFAON MIS RHAGFYR

6: Y Gweinidog

13: Oedfa Ieuencid gyda Mr. Andrew Setatree

20: Oedfa Nadolig y plant

27: Cyfarfod Gweddi

PLAID CYMRU

Daeth criw da o aelodau a chefnogwyr Plaid Cymru at ei gilydd er gwaetha'r noson stormus, nos Fercher, Tachwedd 18, i fwynhau Noson Goffi yn y Sefydliad Coffa. Cafwyd amser difyr yn sgwrsio, gwerthu a phrynu. Gwnaed elw da a bu pawb yn hael iawn gyda'u cyfraniadau. Enillwyd gwobrau yn y raffl gan Mair, Meirwen, Cliff ac Eirwen, a chyhoeddwyd enwau enillwyr Clwb Cant am fis Tachwedd: £10 Arwel Jones; £5 Ifanwy Jones. Diolchodd y Llywydd, Phyllis Ellis, i Pat Jones a fu'n trefnu'r Clwb Cant yn ystod y pedair blynedd diwethaf, ac i Olwen Hughes sydd newydd ymgymryd â'r gwaith. Diolchwyd hefyd i Meirwen a Mair am baratoi'r te a'r coffi, ac i Vera am drefnu'r raffl

MERCHED Y WAWR. Nos



Fawrth, 10 Tachwedd, estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Margaret Parry. Anfonir cofion arbennig at aelodau o'r gangen sy'n sâl ac at Ifan Parry, gŵr Helen. Atgoffwyd pawb am y Noson Cwis, nos Wener, 20 Tachwedd yng Ngwesty Seiont Manor.

Y mae pob aelod wedi cael 4 llyfr raffl i'w gwerthu, bydd angen y bonion a'r arian erbyn cyfarfod Ionawr, sef ar y 12fed. Llongyfarchwyd Megan a Now ar ddathlu eu Priodas Aur.

Gwestai'r noson oedd yr amryddawn Pat Jones, Cae Coch, Brynrefail - wyneb adnabyddus i bawb, yn enwedig i'r rhai sy'n ymddiddori ym myd celf a chrefft. Hedfanodd yr amser wrth i bawb gael cyfle i greu cerdyn Nadolig a gwneud bocs anrheg. Roedd pawb yn

brysur yn mesur, plygu, gludo ac addurno. Roedd ffrwyth y llafur yn creu arddangosfa hyfryd a lliwgar a phawb yn hynod falch o'u campwaith. Diolchwyd i Pat am y paratoi ac am yr arweiniad cadarn, gan sicrhau noson hwyliog a chyfeillgar i bawb. Bydd rhywun go arbennig yn derbyn y cerdyn a'r bocs anrheg y Nadolig hwn!

Bydd Cinio Nadolig y gangen nos Fawrth, 8 Rhagfyr yn 'Bistro', Gardd Fôn, Y Felinheli. Bydd y bws ym Mhenisarwaun am 6.30 ac yna yn codi aelodau Ffordd yr Orsaf a'r Sgwâr. Os nad ydych wedi rhoi eich enw i ddod, cysyllter â Margaret Christian, Gorlan y Rhos, Ffôn symudol: 07796881188. Diolch i Margaret, Linda ac Olwen am y baned.



Cofiwch gefnogi ein holl hysbysebwy



Mae genod Llewod Llanrug dan 12 wedi derbyn 'cîr' newydd, sydd wedi cael ei noddi gan Mr Dave Rochelle, Tafarn Clyntwrog, Llanrug. Buasai'r cleub yn hoffi diolch yn fawr iawn iddo am ei gefnogaeth a'i haelioni.

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partiön, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a tholerau rhegymol gan

(01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol

Annibynnol

2 Stryd y Plas, Caernarfon
(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Mcnai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch yswiriant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

CERIS JONES

Teglan, Stad Talybont

LLANRUG
677362

neu symudol

07979
620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

DIOLCH. Dymuna Sue Jones, 83 Pentre Helen, ddiolch i'w theulu a ffrindiau a staff yr ysgol am yr holl anrhegion, arian a chardiau a derbyniodd ar ei phen-blwydd.

MERCHED Y WAWR. Dechreuwyd cyfarfod mis Hydref o'r gangen drwy ganu cân y mudiad, yna croesawyd pawb gan Brenda, y Llywydd. Anfonwyd cofion at yr aelodau oedd yn methu bod yn bresennol drwy waeledd a chydymdeimlwyd â Lona a Sandra, oedd wedi cael profedigaethau yn ddiweddar.

Bydd dau dîm o'r gangen yn cystadlu yn y Cwis Hwyl yn Seiont Manor a chawn yr hanes yn rhifyn nesaf yr Eco.

Croesawyd y ddwy chwaer, Pat a Pauline, oedd wedi dod atom i ddangos sut i wneud cardiau Nadolig. Cafwyd tipyn o hanes gan Pat ar sut y dechreuodd y ddwy ymddiddori yn y grefft ac wedyn aeth yr aelodau ati i wneud cardiau eu hunain, a chafwyd noson ddiffr dros ben. Diolchodd Brenda i'r ddwy am ddod atom a hefyd am roi peth o'u cynnyrch at y raffl.

Carai Lona ymddiheuro i'r aelodau am fod newyddion y cyfarfod fis yn hwyr yn ymddangos yn yr Eco. Y rheswm am hyn yw bod y newyddion i fod i mewn i'r golygyddion ddiwrnod neu ddau cyn y cyfarfodydd.

Y GYMDEITHAS

LENYDDOL. Cynhaliwyd Cymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhŷ Elidir pryd y cafwyd sgwrs gan Mrs Gwen Jones, Llanrug, am fywyd a gwaith ei mam, Mrs Dilys Baylis, Llanberis.

Cawsom weld lluniau o'i chartref yn Ninorwig a lluniau diddorol i gyd-fynd â'r hanes. Hefyd gwelsom Mrs Baylis ei

hun ar y sgrin fach yn hel atgofion mewn cyfweiliad a wnaeth â'i phlant rai blynyddoedd yn ol. Croesawyd Mrs Gwen Jones gan Mr Bryan Price a diolchwyd iddi gan Mrs Anne Lloyd Jones.

NOSON TÂN GWYLLT. Cafwyd noson tân gwyllt hynod o swnllyd yn yr Ysgol Feithrin nos Wener, 6 Tachwedd. Daeth nifer i weld y sioe lliwgar ac i fwynhau'r bwydydd oedd ar gael yn yr ysgol. Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson.

SIOP NEWYDD. Da iawn yw gweld menter newydd yn agor yn y pentref, sef agor Siop Llanbabo ar y stryd fawr. Mae'r siop yn gwerthu popeth, o dda-da i bapurau newydd a bwydydd, ac yn cynnig gwasanaeth danfon neges i'r rhai na all fynd i'r siop eu hunain. Dymunwn pob llwyddiant i Simon a Rachel gyda'r fenter hon.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys a theulu'r diweddar Tony Crane, Pentre Helen a fu farw'n ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Dilwen, Warren a Jacob, Rhos Caradog, yn dilyn genedigaeth mab a brawd bach newydd.

NOSON CALAN GAEAF. Cynhaliwyd parti Calan Gaeaf yn Nhŷ Elidir ar 31 Hydref, gyda disgo, bwydydd a gemau arswydus i blant y pentref. Diolch i bawb a gyfrannodd a threfnu'r noson.

EISTEDDFOD GADEIRIOL. Cafwyd eisteddfod hynod lwyddiannus eto eleni ar 7 Tachwedd. Roedd cystadlu brwd yn y prynhawn a'r nos, ac yn benllanw ar wythnosau o waith hyfforddi a dysgu calcd gan amryw.

Rhestr Enillwyr y tro nesaf

DIOLCHGARWCH.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch Deiniolen dydd Sul, 18 Hydref.

Yn y bore, cymerwyd rhan gan blant yr Ysgol Sul a'u athrawon. Cafodd y plant hwyl ar ganu caneuon amserol a darllenwyd rhannau o'r Ysgrythur gan yr athrawon Marina, Ffion, Nia Williams, Nia Gruffudd ac Eirlys. Arweiniwyd y cyfarfod gan Eirlys a chyfeiliwyd gan Catrin Llewelyn a John. Diolch i'r plant am wneud eu gwaith mor dda ac i'r athrawon am eu dysgu.

Gyda'r nos cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi o dan ofal yr aelodau a chymerwyd rhan gan Jane, Meira, Eirlys, Glyn, Buddug, Marian a Margaret. Iola Llewelyn oedd yn cyfeilio.

Cafwyd dau gyfarfod bendithiol iawn.

Cyngerdd Nadolig Seindorf

Ieuencid Deiniolen

Nos Fercher Rhagfyr 9ed
Gan gynnwys ymweliad gan
Sion Corn! Festri Capel
Ebeneser, Deiniolen,
am 6.30 yr hwyr.

CYNGERDD

NADOLIG. Cynhelir
Cyngerdd Nadolig yn
Eglwys Crist
Llandinorwig ar nos Sul,
6 Rhagfyr, am 6.30 o'r
gloch.

Yn cymryd rhan mae Seindorf Arian Deiniolen, Côr Clychau'r Grug, Elin Mai, Guto Gwenallt, Enfys Roberts a Pharti Triongl (Deiniolen). Pris mynediad yw £3.50, sy'n cynnwys paned o de a mins pei.

John C. Thomas

**SAER
COED**

**ARBENIGO
MEWN CEGINAU A
DODREFN CEGIN**

Saer Profiadol • Prisiau Teg
Ystyried pob math o waith

(01286) 872012
Symudol- 07790 083643



Dymuna Ken, Roberta, Dafydd a staff

**Y TARW (Bull Inn)
DEINIOLEN**

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I'W CWSMERIAID A FFRINDIAU OLL

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA**

oddi wrth
bawb yn

**ARFON
GARAGE
DEINIOLEN**

(Ffôn: Llanberis 870287)

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn



Buddugwyr ifanc yr eisteddfod

**Stôf Draddodiadol neu FODERN
i gynhesu eich tŷ**

CYSYLLTWCH Â

fflam.biz

JOHN HUGHES a'i FAB

IARD LO • Carmel • Gwynedd
01286 882160

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

CAPEL Y TABERNACL. Hyfryd oedd gweld cymaint o rieni a ffrindiau wedi dod i'r capel i ymuno gyda phlant yr ysgol yn eu Gwasanaeth Diolchgarwch ddydd Iau, 22 Hydref. Thema y gwasanaeth eleni oedd 'Bydd i Bawb yn y Byd'. Rhoddwyd y diolchiadau i'r athrawesau ac yn arbennig i'r plant am eu gwaith clodwiw gan y prifathro, Mr Garem Jackson.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mrs Peggy Rowlands (Maes Gerddi gynt), sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

CYDYMDEIMLAD. Daeth profedigaeth frawychus o sydyn i ran Rhian, Elin a Morgan, 2 Penrhos Wylfa, Seion, drwy golli priod a thad a mab yng nghyfraith i Dafydd ac Alice Morris (Becws gynt). Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu bach yn eu galar a'u hiraeth.



Ysgol Cwm-y-glo tua 1945/46

(Rhes ôl): Katie Williams, Ceinwen Hughes, Eirlys Williams, Enid Morris, Hefin Jones, Mair Eluned, John Thomas, Marian Jones, Mair Williams, Nellie Pritchard, Mair Parry.

(Rhes Ganol): Arfon Jones, William Rowlands, Helen Wyn, Carys Roberts, Einir Jones, Mari Wyn, Gaynor Parry, Margaret Evans, Sybil Pritchard, Katie May, Selwyn Pritchard, Leslie Wyn.

(Rhes Flaen): Gareth Phillips, Melfyn Pritchard, Cecil Morris, Dafydd Roberts, Leslie Orritt, Graeth Roberts, Gwilym Parry, Eurwyn Williams, Cliff Williams.



Plant Cwm-y-glo tua 1936

(Rhes ôl): Hazel Maxwell, Mary Owen, Myfi Hughes, Megan Owen, Olwen Davies, Kathleen Pritchard, Verna Jones, Edith Wyn.

(Rhes 2): Betty Green, Vera Parry, Eileen Rowlands, Joyce ?, Olive Green, Eurwen Closs, Dilys Hughes, Esme Davies, ?, Jean Roberts, Eirlys ?.

(Rhes 3): Lloyd Owen, John O. Roberts, Bob Williams, Dafydd Huw, Alex Bond, Ieuan Closs, Thomas Henry, Wyn Morris.

(Rhes 4): Gwilym Ddôl Bach, Gordon Williams, Ieuan Williams, Goronwy ac Idwal Pritchard, John Morris.

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynllunio Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: Eco'r Wyddfa

AGE
Concern

Os byddwch yn cysylltu â swyddfa Age Concern, byddwch yn ymwneud â chynrychiolydd penodolig o Age Concern Enterprises Limited (ACEnt). Mae ACEnt wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer cyfngiad yswiriant. Mae'r Age Concern uchod yn elusen gytrestredig.

na-nog

Y SIOP GYMRAEG

Dewch draw i siopa 'Dolig'!

Dewis da o gryno ddisgiau i siwtio pawb, llyfrau ar gyfer pob oedran, DVDs, CD-ROMs, gemau a jigsôs i'r plant, dillad gyda sloganau Cymraeg, crysau rygbi ar gyfer pob oed, cardiau 'Dolig', hosannau Nadolig Llawen, nwyddau Golfio, mwgiau, anrhegion a llawer iawn mwy!

Chwilio am anrheg unigryw?
Beth am fwy, mat diod neu gryt i'w cfo nges neu lun person arbennig arno?
www.na-nog.com

Y MAES • Caernarfon • 01286 676946


FFAIR NADOLIG

RHAGFYR 4&5 • 11&12 • 18&19

Dydd Gwener 11.00-20.00 Sadwrn 10.00-18.00

SÊL ADDURNIADAU NADOLIG

Anrhegion • Planhigion • Bwlbiau • Rhithoedd a mwy



BLODAU LIENEKE

Cae Rhydau Pontrug LL55 2TN

Mobile- 07510 511 631

Web: <http://www.blomstervill.no>, e-bost: blomstervill@robin.no

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth Aneuryn a'r staff

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

**GRAHAM A JEAN
A PHAWB YN Y**

**PRINCE
OF WALES
LLANBERIS
870708**



Cwrw Blasus
Croeso Cartrefol

*Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth*

Dilys

Trin Gwallt Teithiol

Trin gwallt merched,
dynion a phlant
yn eich cartref



Symudol:

07919 897898

Ffôn:

(01286) 871869

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy



E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Llanberis a'r cylch

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

WILLIAM SELWYN :: KEITH ANDREW

KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

www.fframia.com

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb oddi wrth

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo

★ Olew Gwres Canolog

i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

HEIGHTS Hotel

LLANBERIS • 01286 871179



*Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
i'n Holl Gwsmeriaid*

Partiôn Nadolig

FFONIWCH YNGLŶN Â'N

PARTI BLWYDDYN NEWYDD

Cinio Dydd Sul a Bwydlen Bar ar Gael

YN YMGYMERD Â PHRIODASAU • ACHLYSURON ARBENNIG

- Papurau Newydd
- Bwyd a Diod
- 'Off Licence'
- Roliau a brechdanau
poeth *Bake'n Bite*
- DVD's a Fideo
- Ar agor bob dydd
7am - 10pm
- Peiriant tynnu pres

Stryd Fawr Llanberis

(01286) 870434

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth
berchnogion a phawb yn Siop*



LLANBERIS

Edrychwn ymlaen at eich gwasanaethu drwy gydol 2010




RHEILFFORDD LLYN PADARN



Dewch am daith ar y trên bach
i weld Siôn Corn, anrheg i
bob plentyn a mins pei a
diod i'r oedolion.

Rhagfyr 6,12,13,19 a 20
Oedolion a phlant £6.50
(o dan 3 oed - £3.00)
Archebwch rŵan - mae'r
trenau yn brysur lenwi.



Ffôn: **01286 870549** am fanylion.



CYNGERDD CAROLAU

**2^orgloch DYDD SUL
RHAGFYR 13 2009
MYNYDD GWEFRU
— LLANBERIS —**

Seindorf Arian Deiniolen
Côr Meibion Dyffryn Peris
Eiteman gan Unawdwyr Lleol

**CELF Y
COPÄON**
MOUNTAIN ART
STRYD FAWR
LLANBERIS 870925

Safle Gwe:
www.mountainart.co.uk
e-bost:
ginger@mountainart.co.uk

- ★ Am luniau mynyddoedd
- ★ Pointiadau
- ★ Printiadau



Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd
Dda i Bawb

Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth Sue Lowe

**odyn
copr**

66 Stryd Fawr
Llanberis

am lyfrau ac
anrhegion
Nadolig

Ffôn: **01286 871366**

PADARN LAKE

LLANBERIS (01286) 870260



**PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD**

CANOL DYDD

A GYDA'R NOS

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig



Mae'r criw yn diolch
i'n holl gwsmeriaid
am eu cefnogaeth

Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda i chi i gyd!

56 STRYD FAWR LLANBERIS Ffon 872686

Marchnad Bwyd a Chrefftiau

Mynydd Gwefru

Sadwrn 5ed a Sul 6ed Rhagfyr 2009

- * Penwythnos o stondinau bwyd ac
anrhegion
- * Mince Pies' Cartref
- * Ymweliad gan Siôn Corn
- * Adloniant trwy'r penwythnos
...a llawer mwy!


**Ymweliad arbennig gan
Geirw Siôn Corn ar y Dydd Sul!!**

Pam ddim gwneud diwrnod ohoni ac
ymweld â Phwerdy Dinorwig.
Teithiau tywys yn cychwyn o Fynydd
Gwefru ac yn cymryd tuag awr a deg munud.

Efallai prynu anrheg arbennig
yn ein siop anghyffredin.
Ffoniwch am fwy o fanylion!
Adeilad yn agor am 9.30 yb tan 5.30 yh

Ganolfan Ymwelwyr Mynydd Gwefru,
Llanberis,
Gwynedd LL55 4UR. Ffôn: **01286 873030**
info@electricmountain.co.uk
www.electricmountain.co.uk

Mae hawl gan y trefnwyr, newid y rhaglen heb rybudd



Olrhain Hanes Bro a Theulu

Gol. Rheinallt Llwyd/

D. Huw Owen

Gwasg Carreg Gwalch. £12

Amcan y gyfrol hon - y gyntaf o'i bath yn y Gymraeg - yw cynnig rhagarweiniad cyffredinol i'r prif ffynonellau sydd ar gael i'r sawl sy'n dymuno olrhain hanes bro a theulu yng Nghymru.


Ceir ymdriniaeth â'r cofnodion a gwyd gan lywodraeth leol ar hyd y canrifoedd yn enwedig ar lefel y plwyf, yn eglwysig a sifil, ac edrychir ar dystiolaeth y gwahanol lysoedd oedd yn gweinyddu cyfiawnder.

Dangosir mor bwysig oedd herodraeth ar un adeg yng Nghymru ac fel y bu i dwf y stadau tîrfeddiannol adael gwaddol amhrisiadwy o gofnodion i haneswyr cymunedol.

Trafodir arwyddocâd y tirwedd ac adeiladau fel dogfennau yr un mor bwysig â'r deunydd llawysgrifol sydd wedi goroesi, boed y rheiny yn ddogfennau profeb neu ffynonellau morwrol.

Astudir hefyd bwysigrwydd mapiau a darluniau a ffotograffau, hen faledi ffair a thystiolaeth cerrig beddau yn ogystal â 'hanes llafar', sef yr wybodaeth nad yw ar gael yn unman, yn aml, ond ar gof unigolion.

Ychwanegir at hyn ddeunydd printiedig amrywiol, gan gynnwys papurau newydd a'r Cyfrifiad ac arwyddocâd enwau lleoedd, ac fe welir fod rhychwant eang o byncia'n cael eu trafod yn y gyfrol hynod ddefnyddiol hon



Hosan o Bosau Nadolig i'r Holl Deulu

Myfanwy Sandham a Siân Lewis. Gwasg Carreg Gwalch.

Pris: £5.95

Yr union beth i lenwi hosan Nadolig pob teulu. Llond llyfr o bosau i ddifyrru plant ac oedolion dros yr ŵyl a thu hwnt. Mae'r ddwy awdures, Myfanwy Sandham a Siân Lewis, yn giamstars ar lunio posau a chroeseiriau ac mae Siôn Morris yntau yn hen law ar ddarlunio posau plant.

Perchnogion Newydd!

yn parhau'r traddodiad gwych

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr Wyl lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfyndedig drwy Warant 3420271

HO! HO! HO!

Nadolig Llawen oddi wrth pawb yn
Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis



* PARTI NADOLIG *

Rhagfyr 21 (12pm - 3pm)

- * Siawns olaf i weld Sion Corn cyn y giwrnod mawr *
- * Sioeau hud
- * Cynllun i wneud crefft Nadoligaidd i'w tynh adref

Cafiwch - mae'r amgueddfa ar agor
drwy'r flwyddyn - felly dewch am drol

Oriau agor dros y gaeaf: Hydref - Mawrth 10am - 4pm Sul - Gwener
Cyfnod y Nadolig: ar gau 24.25.26.27.28.2000 a 1 & 2 Ionawr 2001

Amgueddfa Lechi Cymru, Parc Padarn, Llanberis
☎ 01286 870630 www.amgueddfacymru.ac.uk



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda

i'n holl
gwsmeriaid
oddi wrth bawb ym
menter
fachwen

(01286) 872014

CYNGOR CYMUNED LLANDEINIOLLEN

Cyfarfu'r Cyngor ar yr 20ed o Hydref ac ar y 3ydd o Dachwedd.

Gweddi. Dechreuwyd y ddau gyfarfod trwy weddi. Dyma gynodeb, fel arfer, o'r cofnodion.

Materion o'r cofnodion

Rhiwlas. Cyflwynwyd ebost Hefin Williams:

- Biniau ailgylchu heb eu hailosod

- Arosfan bws - dewis y pentrefwyr yw ei osod yn Sgwâr y Post

- Arwyddion Lôn Bach Awyr heb eu gosod.

Penderfynwyd anfon ei sylwadau ymlaen i Gyngor Gwynedd.

Carthffosiaeth Trem Eilian, Brynrefail. Darllenwyd ateb Dŵr Cymru yn cadarnhau eu bod yn trefnu gwella'r sefyllfa i arbed gor-lif i'r ffordd.

Lleoli plant â phroblemau meddygol cymhleth yng Nghymru. Darllenwyd llythyr Hywel Williams AS, copi o lythyr Wayne David AS. a chyflwyniad Hywel Williams i'r Tŷ Cyffredin ar y 15ed o Orffennaf 2009.

Dywedodd Aled Green bod grantiau cymunedol i'w cael ar gyfer prosiectau cymunedol - Community cash back, Criminal cash for projects (local) y cysylltiad yw Alan Johnson AS. Cyfeiriodd Gwilym Williams at fan a threiar sy'n rhwystr wrth ochr y ffordd yn Allt Sam - llythyr i Wynedd.

Cyflwynodd Huw P. Hughes ddau bwynt:

1. Mae mainc Gors Bach wedi ei chadw i mewn yn yr adeilad, gallai gael ei gosod yng nghae chwarae Bethel. Gwneir defnydd mawr o'r un sydd yno yn barod. Addawodd y Clerc gael gair ag Idris Morris, efallai bod ei hangen yn Seion.

2. Mae gordyfiant yng ngheg llwybr Glan Gors/Tyddyn Andro, Bethel - cwyn i Wynedd. **Mainc Dinorwig.** Diflannodd y fainc a oedd dros y ffordd i'r ganolfan, cafwyd ateb y Cyngor Sir nad hwy oedd yn gyfrifol. Awgrymwyd gofyn i Clwb Orwig lle fuasai'r safle gorau i'r fainc a oedd yn Bryn Llys - naill ar y cylch gwair yn y fan honno neu gyferbyn â'r ganolfan.

Dywedodd Phyllis Ellis bod mainc wedi ei gosod gan Wynedd y tu cefn i dai Llys y Gwynn a'i bod yn denu ieuencid i ymgynnull yno i yfed ac amharu ar y trigolion - llythyr i Wynedd.

Llinellau melyn Rhirwen. Eglurodd Len Jones nad oes penderfyniad terfynol wedi ei wneud i'w gosod, mae llawer o wrthwynebu.

Afon Seiont. Dywedodd Pat Jones bod gordyfiant yn amharu ar lif Afon Seiont ac o ganlyniad bod tua 20 erw o dir pori yn segur. Penderfynwyd cwyno i Dŵr Cymru ac i Mr Arfon Winston, Rheolwr Amgylcheddol, Asiantaeth yr Amgylchedd.

Goleuadau cyhoeddus: Ffordd Cae Hywel, Penisa'rwaun

Cyflwynwyd ateb Gwynedd yn egluro bod y Bwrdd Telathrebu wedi torri'r cebl wrth osod polyn newydd. Penderfynwyd pwyso ar Wynedd i'w hatgyweirio ar unwaith ar gost y Bwrdd Telathrebu.

Addewid Gwynedd i dorri'r canghennau sy'n amharu ar y goleuadau yn Allt Rhiwlas, Lôn Mynydd, Rhiwlas, 19 Bro Rhiwen a ger Rhif 1. Carfan, Pentir.

Ffordd Perthi, Penisa'rwaun. Cadarnhad Gwynedd eu bod wedi dweud wrth y perchnogion tir am dorri'r gordyfiant a byddant yn monitro'r sefyllfa. Ychwanegodd Aled Green bod gwreiddiau yn amharu ar y gwli ger gât Hafan - llythyr i Wynedd.

Blwch halen. Darllenwyd rhesymau Gwynedd am beidio gosod blwch ar y ffordd i gae chwarae Penisa'rwaun. Penderfynwyd bod gwir angen un ar gyfer yr uchod a chyffordd Siop Gron, argymhellwyd anfon llythyr i Mr Gwyn Morris Jones. **Lôn Bach Awyr.** Ateb Gwynedd na roddir mwy o arwyddion yma.

Troedio Llwybrau Llanddeiniolen. Derbyniwyd adroddiad Gareth Roberts o'r sefyllfa bresennol. Dosbarthwyd y map ym mhob lle cyhoeddus yn y gymuned.

O ganlyniad ymddangosiad y map ar safle we y BBC, daeth ceisiadau am fapiau ledled Cymru a Lloegr. Anfonwyd copiau i Seattle ac Oklahoma (UDA), Vancouver a Nova Scotio (Canada) ac i deulu o Seland Newydd a'u gwreiddiau yn Seion.

Trefnwyd taith gerdded i Glwb 20:30 ac athpwyd a 20 o blant a'u rhieni ar gylchdaith Dinorwig (a chael picnig yn y canol).

Fel dilyniant i gyhoeddiad Llanddeiniolen mae amryw o gynghorau eraill wedi dangos diddordeb mewn cynhyrchu map/hanes o'u hardaloedd, yn eu plith Cynghorau Llanberis, Llanrug, Y Felinheli, Bethesda a Llanllechid.

Fel y disgwyl darganfuwyd amryw o ddiffygion ar y llwybrau:

Llwybr 134 cae Meta - ffens 8 troedfedd ar draws y llwybr a sticl wedi ei dynnu

Llwybrau 139 a 118 (Tan y Braich, Deiniolen) bron yn amhosibl eu dilyn.

Penderfynwyd atgoffa Gwynedd o'r diffygion uchod.

Ffyrdd. Dywedodd Aled Green bod prifets yn dal angen eu torri ger Llys Iolen a bod carreg fawr yn rhydd o'r wal yno - llythyr i Wynedd.

Cyfeiriodd y cadeirydd at agwedd *Eco'r Wyddfa* ynglŷn â chyhoeddi crynodeb o gofnodion y Cyngor. Dywedodd ei fod wedi dadlau yng nghyfarfod y swyddogion bod y Cyngor yma yn cynrychioli saith pentref, pedwar ohonynt o faint sylweddol.

Un pentref mawr ac un bychan yw cymunedau Llanberis a Llanrug. Ychwanegodd Len Jones bod yr erthygl misol yn yr Eco o ddiddordeb i'r ardalwyr ac yn gyfrwng iddynt gael gwybod am waith a digwyddiadau'r Cyngor.

Penderfynwyd anfon llythyr at Geraint Elis, Cadeirydd Pwyllgor gwaith yr Eco, i gadarnhau'r uchod a chyfeirio at gyhoeddiad lawnsio'r map llwybrau a adawyd allan o'r papur bro.

Ciosg Glasgoed. Dywedodd Phyllis Ellis bod gan gymdogion ddiddordeb i gadw'r blwch coch ond ei gynnig i'r Cyngor wnaeth BT am £1. Penderfynwyd gofyn i BT am amcangyfrif o'r gost cynnal a chadw; beth fyddai'r gost i'w yswirio; a fuasai gan y Cyngor i'w werthu ymlaen a beth fuasai'r gost o'i symud.

Fforwm Padarn. Derbyniwyd adroddiad gan Huw P. Hughes a Len Jones o gyfarfod y Fforwm. Mae achos yr algae ar Lyn Padarn yn dipyn o ddirgelwch ond rhaid amau carthffosiaeth. Rhaid disgwyl tan Fis Ionawr i weld datblygiadau. Len Jones sy'n cynrychioli'r Cyngor ar y Fforwm.

Cremlyn, Bethel. Cyflwynwyd ebost oddi wrth Huw P. Hughes yn cyfeirio at y bwriad o wneud lle parcio yma. Trafodwyd cyfraniad gan y Cyngor gan gyfeirio at anghenion pentrefi eraill. Dywedodd Len Jones ei fod yn ceisio lle parcio i Res Marian a Thai Garadog, Deiniolen. Awgrymwyd gofyn i Wynedd a oes modd gwncud lle parcio ger Bryn Tirion, Penisa'rwaun a beth fuasai'r gost? Penderfynwyd cyfrannu at gynllun Cremlyn ac ystyried datblygiadau pentrefi craill yn eu tro.

Dywedodd Mrs Larsen nad yw'r llinellau melyn wedi eu paentio ar fynedfa Bryn Tirion, Penisa'rwaun - cwyn i Wynedd.

Cyfarfod blynyddol Gwynedd gyda'r Cymunedau. Adroddiad Phyllis Ellis:

Strategaeth Arbedion Cyngor Gwynedd. Soniodd Harry Thomas am doriadau enfawr, Trosglwyddo stoc tai'r Cyngor - mwyafrif o'r tenantiaid o blaid dod dan aden Cymdeithas Tai - trosglwyddo ddiwedd Mawrth. Bydd swm sylweddol o gyllid am gyfnod o 5 mlynedd i adnewyddu. Canran o rent yn mynd i gronfa fydd yn cael ei rhannu â'r Cynulliad. Bydd hawl i brynu tai a'u hadnewyddu.

Trawsnewid Gofal Cymdeithasol. Rhaid newid a chanolbwyntio ar ail-alluogi pobl i wneud mwy drostynt eu hunain gyda help, megis Gofal Môn. Gosodir sensor mewn gwahanol leoedd megis wrth y sinc, dan y fatras a drws t?. Defnyddio canolfan dydd, dysgu sgiliau (yn Arfon yn Ionawr)

Trafnidiaeth. Torri tyfiant - gadael i'r Cyngor wybod fel y gallant anfon llythyr i'r tîrfeddiannwr neu bydd y Cyngor yn ei dorri ac yn anfon bil i'r tîrfeddiannwr.

Loriau yn defnyddio 'Sat Nav' - gellir cael arwyddion i'w rhybuddio o ffyrdd cul.

Trafodwyd problemau traffig Bontnewydd, Llanfaglan a Bangor. **Rhoddion blynyddol i fudiadau elusennol**

Mudiadau a eithriwyd o gyflwyno prosiect neu weithgaredd arbennig:

£300 yr un i Neuaddau Penisa'rwaun, Rhiwlas a Bethel. £300 yr un i Eisteddfodau Bethel, Penisa'rwaun a Deiniolen gydag amod bod £25 o'r £300 yn cael ei gynnig yn wobwr cystadleuaeth o dan 18 oed am draethawd ar y testun 'Llanddeiniolen yfory'. Gwirfoddolodd Richard Ll. Jones i feirniadu'r gystadleuaeth. Os na fydd cystadlu disgwylir cael y £25 yn ôl.

£100 i Llais Ogwan.

£500 i Cynllun EFE

Mudiadau i gyflwyno prosiect neu weithgaredd arbennig:

£300 Scindorf Arian Deiniolen £100 yr un i Clwb Orwig Dinorwig, Clwb Bro Bethel, Clwb Snwcer Deiniolen a Clwb Snwcer Bethel.


£150 yr un i Clwb Pêl Droed Ieuencid Deiniolen a Clwb Pêl Droed Bethel.

£100 yr un i Ysgol Feithrin Deiniolen, Cymdeithas Lenyddol Bethel, Clwb Bro Rhiwen ac i'r Amgueddfa Lechi fel cyfraniad at y Ddrama a Chyngerdd 'Cofio'r Cau'.

Dyddiad y cyfarfod nesaf:
1af o Ragfyr 2009

CHWARAEON

SIARAD PLAEN



Bydd cryn edrych ymlaen yn lleol at gyhoeddi hunangofiant Malcolm Allen fydd yn y siopau yn fuan. Mae'r cyn bêl-droediwr rhyngwladol o Ddeiniolen â thipyn o stori i'w dweud - o'r uchelfannau i'r iselfannau. Mae'n siŵr fod Malcolm yn un o'r ychydig 'hogia bach y wlad' sydd wedi cyrraedd y brig. Mae'r cofnodion yn dangos mai cefndir trefol sydd i nifer o chwaraewyr y 'crys coch' erioed.

Fel sylwbydd mac'n ennill ei fara menynd erbyn hyn, ac nid yw'n araf i fynegi barn trwy'r meic.

Cofiaf ddyfarnu gêm dan 15 Môn v Arfon ar gae 'swamp' David Hughes. Yr oedd dau yn sefyll allan y pnawn hwnnw, hyd yn oed yn y fath elfennau. Malcolm a'i redeg di-flino, ei lygaidd am bas dreiddgar a chyfle i ergydio, a Deiniol Graham y Monwysyn a'acth ymlaen i Manchester United. Fel y dywed Malcolm,

'Dim ond pêl-droed o'n i'n ddallt'.

Tra yn Newcastle cafodd anaf difrifol yn 1995 a ddaeth â'i yrfa i ben.

Dyma gychwyn cyfnod du yn ci hancs gyda phroblemau personol yn arwain at dorriodas. Gyda chyn gymaint o hogiau ifanc lleol erbyn hyn yn gobeithio'i 'gwneud hi' rwy'n siŵr bod profiad Malcolm yn faes iddynt bendroni drosto. Nid oes fawr o 'saint' fel Ryan Giggs.

Bydd un rhan o'r llyfr yn amserol iawn. Nid yw Malcolm yn iildio modfedd o'i farn y dylai Toshack ffarwelio â'r swydd o fod yn reolwr Cymru. Mae cryn ddadlau ar y pwynt yma. Rhai yn dweud ei fod wedi rhoi cyfle i'r ieuenctid a bod llygedyn o obaith ar y gornel. Eraill yn dweud mai elwa o waith arbennig Brian Flynn gyda'r

oedrannau iau mae Toshack. Yn sicr, ar lefel ryngwladol nid yw Toshack wedi bod y mwyaf effro yn dactegol. Mae'n ymddangos i mi ei fod wedi gwrthio system chwarae anaddas ar y chwaraewyr, yn lle dyfalu system sy'n gweddu i'r chwaraewyr sydd ar gael. Mae gan bob gwlad ei natur gynhenid, ac nid yw'r gêm araf gyfandirol yn eistedd yn gyfforddus ar ysgwyddau y Cymru ifanc. Hefyd, mae'n amlwg nad yw ei berthynas â rhai o'r chwaraewyr yn iach. Ni fu erioed gyfnod yn hanes pêl-droed Cymru ble mae cyn gymaint o chwaraewyr yn absennol o wahanol garfannau.

Codwyd calonau y cefnogwyr gyda'r fuddugoliaeth yn erbyn yr Alban. Roedd y tîm yn edrych yn fwy cartrefol yn stadiwm Caerdydd nac yn awyrgylch ogof stadiwm y Mileniwm. Gyda'r cyson Ashley Williams yn datblygu fel angor o flaen y llinell amddiffynnol a Ramsey yn arian byw tu cefn i'r ymosodwyr, mae patrwm chwarae pendant yn datblygu. Mae Hennessey hefyd yn datblygu yn graig, er bod ambell i farc cwestiwn ynglŷn â delio gyda chroesiadau. Yn sicr roedd cyflwr wyneb y cae hefyd yn gweddu i safon gwell o basio a symud. Diddorol fydd edrych ymlaen at y garfan nesaf - yn enwedig sefyllfa Bellamy. Gallwn ffarwelio, dwi'n meddwl, a Gabbidon ac Earnshaw, a bydd rhaid i Collinson wneud penderfyniad buan os yw yn Gymro neu yn Sais.

Gobeithio y gall y tîm dan 21 gadw'r momentwm i fynd ac ennill eu lle yn rowndiau terfynol Ewrop. Digon i gnoi cil arno, ac edrychaf ymlaen i ddarllen hunangofiant Malcolm. Dyna un anrheg Nadolig wedi setlo beth bynnag.

Malcolm Allen - Hunangofiant
Gwasg y Lolfa Pris: £9.95.

LANSIO'R GYFROL

Bu Malcolm Allen yn lansio ei hunangofiant yng Nghlwb Pêl-droed Caernarfon nos Wener 20 Tachwedd. Mae'n gyfrol emosiynol a gonest sy'n croniclo gyrfa a bendiliodd o uchelfannau i iselfannau'r gem. Wedi ei eni a'i fagu yn Neiniolen, arweiniodd ei obsesiwn cynnar â'r bêl gron yng Ngogledd Cymru i Malcolm yn hogyn un ar bymtheg i symud i Watford i wneud ei brentisiaeth o dan arweiniad Graham Taylor. Yna, symudodd i nifer o glybiau cyn ymuno a'r mawrion yng ngogledd Lloegr yn Newcastle. Cafodd Allen yrfa lwyddiannus gyda Chymru yn ennill 14 cap a sgorio 3 gôl.

Gyda theyrngedau gan bersonoliaethau pêl-droed megis Kevin Keegan, mae'r hunangofiant, yn dilyn Malcolm, o'i ddyddiau cynnar yn Watford i'w ddyddiau llwyddiannus yn sgorio goliau yn Millwall at ei falchder yn gwisgo crys coch Cymru. Mae hefyd yn adrodd am yr amser pan fu'n rhan o'r gêm ddramatig Cymru yn erbyn Romania ym Mharec yr Arfau yn 1993 a'r canlyniad oedd wedi cael effaith fawr ar bêl-droed yng Nghymru.

Dywedodd Malcolm Allen, "Dwi wedi bod yn meddwl am sgwennu fy hunangofiant am y bum mlynedd ddiwethaf ond dyw hi ddim wedi bod yn amser iawn... tan nawr. Dyw e ddim wedi bod yn hawdd i'w ysgrifennu - mae 'na rhai cyfnodau a phenodau anodd wedi bod. Dydy o ddim yn gyson o gwbl ond fel na mae fy mywyd i! Mae mam a dad wedi bod yn gefnogaeth fawr i mi ar hyd fy mywyd. Dwi'n meddwl ei fod o'n gwneud darllen difyr! "Be oni isio gwneud fwy na dim yn y llyfr oedd cyfleu'r emosiwn a'r teimladau gwahanol. Gobeithio bydd y llyfr yn gwneud i bobl feddwl amdana i mewn ffordd dipyn yn wahanol o hyn ymlaen ac yn ysbrydoli pobl i beidio mynd i fyny rhai lonydd (fel dwi wedi gwneud) ac i fyny llwybrau craill a dilyn eu breuddwydion."

PWYSIG IAWN!

I bawb sydd am anfon newyddion, deunydd, storïau, erthyglau ac yn y blaen ar gyfer rhifyn y Nadolig 2009.

RHAID i'r holl ddeunydd fod i law erbyn NOS SUL, 6ED O RAGFYR. Ni fydd unrhyw ddeunydd a dderbynir wedi'r dyddiad hwn yn cael ei gynnwys!

PEIDIWCH ac anfon unrhyw ddeunydd i'r Wasg.

MOR AGOS

Llongyfarchiadau i Lanrug ar eu perfformiad clodwiw yn erbyn y Bala yng Nghwpan Cymru. Cafwyd sawl cyfle ac roedd swyddogion y Bala yn hael iawn eu sylwadau am ymdrech hogiau Eithin Duon. Mae'n siŵr bod llawer o'r chwaraewyr wedi recordio yr uchafbwyntiau ar Sgorio a bydd cryn ail ddangos i'r wyrion rhyw ddydd.

Sylw hefyd i Jamie Whitmore sydd wedi symud o Fethel draw at yr Howgets. O'i ymddangosiad cyntaf mewn cynghrair dwy lefel yn uwch mae'n sgoriwr cyson. Cadwch olwg arno!

HELP LLAW

Joe Jordan yn Anfield, Diego Maradona i'r Ariannin ac yn awr Thierry Henri dros Ffrainc. Heb os, fe gollodd sawl chwaraewr ei unig gyfle i gyrraedd rowndiau terfynol Cwpan y Byd oherwydd yr achosion hyn. Onid yr achos diweddaraf yma fydd yr un fydd yn gorfodi yr awdurdodau pêl-droed i gyflwyno'r defnydd o dechnoleg. Drosodd atat ti, Michelle Platini!

O GWMPAS Y BWRDD



Erbyn hyn mae'r tymor dartiau wedi hen sefydlu, gan gofio fod dartiau yn boblogaidd iawn ymysg y merched hefyd. Ymysg y dynion mae'n glos iawn ar frig y brif adran yng Nghynghrair Caernarfon a'r Cylch. Hogiau'r Waunfawr (SPH) sydd â dau bwynt o fantais dros hogiau Bull, Deiniolen. Yn yr ail adran mae'r Bedol yn ddiguro hyd yn hyn efo saith pwynt o fantais. Hwyl hefyd sy'n arwain y gynghrair Dyblau. Tîm Penbont B sy'n eu cwrso yn yr adran dyblau.

Yn adran un y merched mae Twthill naw pwynt ar y blaen, ond yn ail mae Penbont A. Yn yr ail adran i ferched, Bull, Deiniolen sy'n arwain. Bydd toriad am ambell gêm cwpan a'r Nadolig rwan, ond yn y flwyddyn newydd bydd ail finiogi'r dartiau a gobeithio gweld y fro yn cipio'r tlysau.